


2024/2025



# Adroddiad Cynnydd Nodau Datblygu Cynaliadwy Prifysgol Bangor

# SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS



# Cyflwyniad

---

## Y Nodau Datblygu Cynaliadwy

**"Access to quality and relevant education, decent work, universal healthcare, social protection and digital connectivity remains limited, with billions at risk of being left behind.**

**The message is clear - and it is stark. The outlook for achieving people-centred development and meeting the Sustainable Development Goals is fragile. But it is not too late to change course if we step up our efforts and reaffirm our commitment to leave no one behind. We need urgent, coordinated reforms and harmonization of social, economic and fiscal policies. We need genuine partnerships."**

Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig Amina Mohammed

Mae cynaliadwyedd wrth wraidd Prifysgol Bangor ac mae'n ganolog i'n Strategaeth 2030 y Brifysgol:

*"Prifysgol fyd-eang ei chysylltiadau, sy'n manteisio ar gyfleoedd i lwyddo trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol sy'n seiliedig ar effaith gyda ffocws ar gynaliadwyedd: diogelu'r amgylchedd, adfywio iechyd cymdeithas, a hyrwyddo ffyniant economaidd, cymdeithasol, dwyieithog, a diwylliannol."*

Fel cymuned prifysgol, rhaid i ni weithredu mewn modd sy'n sicrhau bod anghenion ein myfyrwyr, ein staff a'n cymuned leol yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu ar allu'r rheini yn y dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Amcanion Prifysgol Bangor yw addysgu ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf, cynnal ymchwil flaenllaw, bod yn gyflogwr gwych, a chymryd rhan weithredol yn y gymuned. Mae cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Bangor yn bellgyrhaeddol, ac mae'n cynnwys popeth: o iechyd a lles ei staff, i ailgylchu yn ei neuaddau myfyrwyr; o gynnwys y cwricwlwm i'w gweithgareddau ymchwil.

## Y Strategaeth Gynaliadwyedd 2030

# Tabl Cynnwys

---

## Nid mater o edrych yn ôl yn unig yw adroddiadau cynaliadwyedd

Mae'r Adroddiad hwn yn cyflwyno ein chweched adroddiad Nodau Datblygu Cynaliadwy blynyddol cyhoeddedig i ddangos sampl fach o'r ffyrdd niferus yr ydym yn cyfrannu drwy ymchwil, ymgysylltu â'r cyhoedd, dysgu a myfyrwyr, ac elfennau gweithredol, at 17 Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'r Adroddiad Nodau Datblygu Cynaliadwy hwn yn waith parhaus ar y gweill, ac yn ffordd i Brifysgol Bangor olrhain ei heffaith a'i gwelliannau dros amser.

03	NOD 1: DIM TLODI	21	NOD 10: LLAI O ANGHYDRADDOLDEB
05	NOD 2: DIM NEWYN	23	NOD 11: DINASOEDD A CHYMUNEDAU CYNALIADWY
07	NOD 3: IECHYD A LLESIANT DA	25	NOD 12: DEFNYDDIO A CHYNYRCHU'N GYFRIFOL
09	NOD 4: ADDYSG O ANSAWDD	27	NOD 13: GWEITHREDU AR Y NEWID YN YR HINSAWDD
11	NOD 5: CYDRADDOLDEB RHYWIOL	29	NOD 14: BYWYD O DAN Y DŴR
13	NOD 6: DŴR GLÂN A GLANWEITHDRA	31	NOD 15: BYWYD AR TIR
15	NOD 7: YNNI FFORDDIADWY A GLÂN	33	NOD 16: HEDDWCH, CYFIAWNDER A SEFYDLIADAU CADARN
17	NOD 8: GWAITH TEILWNG A THWF ECONOMAIDD	35	NOD 17: GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH I GYFLAWNI'R NODAU
19	NOD 9: DIWYDIANT, ARLOESI A SEILWAITH		



## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

### Myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithdy ar ddigartrefedd yng Ngwlad Pwyl

Cefnogodd Cronfa Bangor fyfyrwyr israddedig o'r Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas i fynychu gweithdy ar ddigartrefedd ym Mhrifysgol Łódź, Gwlad Pwyl, fel rhan o gynhadledd ryngwladol flynyddol ar Waith Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol ym mis Mehefin. Rhoddodd y profiad fewnwelediadau gwerthfawr iddynt i wahanol ddulliau diwylliannol a dulliau polisi.

Rhannodd Bella Winrow, myfyrwraig trydedd flwyddyn sy'n astudio Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd, ei [hymchwil ar ddigartrefedd yng Nghymru gyda chynulleidfa ryngwladol](#) o fyfyrwyr a staff academiaidd. Sbardunodd ei chyflwyniad, a oedd yn seiliedig ar gyfweiliad manwl gyda pherson ifanc sy'n profi digartrefedd, drafodaeth ac adfyfrio ystyrllon. Gwnaed y cyfweiliad hwn yn bosibl diolch i gefnogaeth Gisda, sefydliad lleol yng Ngogledd Cymru sy'n cefnogi pobl ifanc digartref. Y tu hwnt i'r rhaglen academiaidd, roedd y myfyrwyr yn treulio amser gyda chyfoedion o Wlad Pwyl a'r Almaen, gan rannu profiadau diwylliannol. Diolch i Gronfa Bangor, dychwelodd y myfyrwyr gyda safbwyntiau ehangach, cyfeillgarwch newydd, a dealltwriaeth ddyfnach o heriau cymdeithasol byd-eang.

## Nod: Rhoi diwedd ar dlodi o bob ffurf ym mhobman

### YMCHWIL

#### Rhwydweithiau cymdeithasol yn helpu pobl i ddatrys problemau lles - weithiau

Edrychodd yr astudiaeth, a [arweiniwyd gan Brifysgol Bangor](#) ac a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield a'r Academi Brydeinig, ar effaith cysylltiadau cymunedol a chymdeithasol ar allu pobl i gael mynediad at gyngor a chymorth i ddatrys problemau lles cymdeithasol.

Canfuwyd bod maint rhwydweithiau cymdeithasol pobl a'r cysylltiadau rhyngddynt yn darparu cymorth cyfyngedig i ddatrys y problemau lles cymdeithasol y maent yn eu hwynebu. Y ffactor bwysicaf yw natur y broblem ei hun: mae problemau gyda budd-daliadau a phroblemau ariannol fel arfer yn haws eu datrys o gymharu â phroblemau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol, anghenion addysgol arbennig, thai ac iechyd meddwl.

#### Adroddiad newydd ar sut y gall byw mewn cartref oer effeithio ar ein hiechyd

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a [Phrifysgol Bangor](#) wedi cyhoeddi adroddiad ar bwysigrwydd cynhesrwydd tai i'n hiechyd a'n llesiant.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno tystiolaeth bod byw mewn cartref oerach (ar dymheredd is na 18°C) yn gysylltiedig ag effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn rhai sydd â chyflyrau iechyd neu anabledau. Dywedodd naw o bob deg (89%) eu bod yn teimlo cysur thermol (teimlo'n gyfforddus o gynnes) yn eu prif fan byw. O'r rhai a nododd anghysur thermol, dywedodd 71% fod hyn oherwydd ei fod yn costio gormod i gadw'r gwres ymlaen. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn bwysig oherwydd eu bod yn dangos effaith costau gwresogi ar allu pobl i wresogi eu cartrefi'n ddigonol yn ystod y gaeaf.

## DYSGU A MYFYRWYR

### Teithio ar fws am bris gostyngol

Mae Tocynnau Arriva Myfyrrwyr ar gael ar gyfer bob myfyriwr llawn-amser Prifysgol Bangor. Maent y cael:

- Prisiau gostyngol;
- Teithio anghyfyngedig ar holl wasanaethau Arriva yn y parthau penodedig drwy'r dydd, bob dydd;
- Dewis o docynnau gan gynnwys tocynnau Dydd, Wythnosol a rhai ar gyfer tymor a blwyddyn academiaidd benodol.

### Byw yn Neuaddau

Mae Prifysgol Bangor yn cynnig byw'n holl-gynhwysol efo dim costau cudd, pan fyddwch chi'n byw gyda ni yn Neuaddau'r Brifysgol.

- Pob bil yn gynwysedig;
- Rhyngwrwyd cyflym arobryn;
- Aelodaeth campfa yn gynwysedig;
- Diogelwch 24 awr;
- Glanhau cegin wythnosol (dim stiwdio);
- Golchfa am ddim unwaith y wythnos am hyd y contract;
- Cymorth mentoriaid;
- Digwyddiadau wythnosol Campws Byw;
- Tîm ymatebol cynnal a chadw ar y safle;

Toes na ddim ffioedd archebu ac ystafelloedd ar gael o £119 yr wythnos.

I'r rhai sy'n chwilio am dŷ preifat ym Mangor, mae'r Brifysgol yn cynnig cyngor a chefnogaeth ddiudedd yn ein Swyddfa Tai Myfyrrwyr.



Gydag aelodaeth campfa | Digwyddiadau Campws Byw bob wythnos  
Diogelwch 24 awr ac Yswiriant ystafell | Rhyngwrwyd arobryn | Cymorth Mentoriaid  
Chynnal a chadw ar y safle | Glanhau wythnosol | Golchdy am ddim\*

Ystafelloedd o £119



Archebwch ar-lein nawr!  
bangor.ac.uk/fystafell

## GWEITHREDIADAU

### Prifysgol Bangor yn sicrhau dyfarniad Masnach Deg o fri

Mae Prifysgol Bangor wedi sicrhau Dyfarniad Prifysgol a Choleg Masnach Deg o fri ar gyfer 2025. Caiff y Dyfarniad 2\* ei gyflwyno am ymrwymiad parhaus y brifysgol i hyrwyddo treuliant moesegol a chyfiawnder byd-eang ar draws ei champysau.

Mae'n cydnabod ymrwymiad parhaus dros ddwy flynedd academiaidd i gynyddu ymwybyddiaeth ac i weithredu ar gyfiawnder masnach a globaleiddio yn ystod cyfnod pan mae tirweddau addysgol sy'n newid ac argyfyngau byd-eang sy'n cynyddu yn parhau i herio sefydliadau.

Aseswyd prifysgolion ar draws ystod eang o feysydd, gan gynnwys Ymchwil a Chwricwlwm, Ymgyrchu a Dylanwadu, a Chaffael, Adwerthu ac Arlwyo. Dyfarnwyd pwyntiau ychwanegol am ddulliau arloesol ac effeithiol o ymgysylltu myfyrrwyr a staff â chynaliadwyedd byd-eang a masnach foesebol.



Gwobr Prifysgol Masnach Deg

### Pythefnos Masnach Deg

Eleni, fel rhan o Bythefnos Masnach Deg, helpodd myfyrrwyr i addysgu plant ysgol leol am Fasnach Deg a datgoedwigo er mwyn lledaenu ymwybyddiaeth. Yn ogystal, roedd y digwyddiadau'n cynnwys cwis Masnach Deg gyda pheccynnau rhoi bwyd a digwyddiad siocled poeth Masnach Deg am ddim.



## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

### Anrhydeddu Global Farm Platform â chydabyddiaeth ar gyfer trawsnewid da byw cynaliadwy

Mae'r Global Farm Platform (GFP), project cydweithredol ar draws 19 o ffermydd ymchwil a 28 sefydliad ar draws chwe chyfandir, sy'n cynnwys [Fferm Prifysgol Bangor](#), [Canolfan Ymchwil Henfaes](#), wedi ennill gwobr ryngwladol. Derbyniodd y plattform Gydabyddiaeth Dechnegol fawreddog gan Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig (FAO) mewn Trawsnewid Da Byw Cynaliadwy, Un Iechyd, Iechyd Anifeiliaid, a Chanolfannau Cyfeirio.

Mae'r seremoni yn cydnabod dull GFP, sy'n cysylltu ymchwil ag arferion ffermio i hyrwyddo diogelwch bwyd byd-eang, datblygu cynaliadwy, a thrawsnewid systemau bwyd-amaeth. Mae'r GFP yn enghraifft o arweinyddiaeth dechnegol a chydweithredu trwy ei fodel unigryw. Mae ffermydd ymchwil yn gwasanaethu fel canolfannau rhanbarthol ar gyfer arbrofi ac arddangos, tra bod ffermydd masnachol a thyddynwyr yn mabwysiadu ac yn lledaenu arferion lleol perthnasol, economaidd effeithiol ac amgylcheddol gynaliadwy. Mae'r model hwn yn sicrhau atebion wedi'u teilwra i gymunedau ffermio amrywiol ledled y byd.

**Nod: Rhoi diwedd ar newyn,  
sicrhau diogelwch bwyd a gwell  
maeth a hyrwyddo  
amaethyddiaeth gynaliadwy**

## YMCHWIL

**Mae newid hinsawdd yn fygythiad llawer  
mwy i amaethyddiaeth na haenau tomwellt  
plastig, yn ôl rhybudd gan ymchwilwyr**

Yn wir, dengys yr astudiaeth a wnaed o dan arweiniad [Prifysgol Bangor](#) fod plastigion yn helpu lleihau effeithiau llawer o broblemau amgylcheddol mewn amaethyddiaeth.

Mae defnyddio daenfeydd yn dechneg amaethyddol sydd yn cynnwys gorchuddio'r pridd gyda ffilmiau arbennig er mwyn codi tymereddau, atal chwyn a gwarchod dŵr mewn cynhyrchiad cynyddu.

Mae'r ymchwil, a gyhoeddwyd yn Environment International, yn herio'r pryderon cynyddol sy'n ymwneud â defnyddio hneau tomwellt plastig mewn amaethyddiaeth ac mae'n galw am arferion gwell mewn ymchwil a rheolaeth.

Mae ymchwilwyr o Brifysgol Bangor, Prifysgol Amaethyddol Tsieina, a sefydliadau rhyngwladol eraill wedi cyhoeddi adolygiad cynhwysfawr sy'n archwilio manteision ac effeithiau amgylcheddol posibl defnyddio plastig mewn amaethyddiaeth.

Maent yn rhybuddio bod eu canfyddiadau'n tynnu sylw at baradocs hollbwysig y mae'n rhaid i lunwyr polisi, ffermwyr ac eiriolwyr amgylcheddol fynd i'r afael ag ef.



## DYSGU A MYFYRWYR

### Cefnogaeth ychwanegol gyda bwyd a hanfodion

Mae prisiau bwyd yn codi, a gwyddom y gall rheoli eich cyllideb fel myfyriwr fod yn heriol. I ychwanegu at y gefnogaeth sydd eisoes yn bodoli, rydym wedi lansio Pantri - adnodd sy'n darparu bwyd hir oes, byrbrydau, prydau hawdd eu paratoi, cynhyrchion glanhau, ac eitemau hylendid personol os ydych chi'n wynebu caledi ariannol.

### Cronfa Bangor yn cefnogi gweithdy llythrennedd bwyd

Mae grant gan Gronfa Bangor, a gynhelir gan gyn-fyfyryr, wedi galluogi myfyryr yr Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau i gymryd rhan mewn gweithdy llythrennedd bwyd yn Neuadd Reichel.

Cynhaliwyd y digwyddiad dan arweiniad arbenigol Gwasanaethau Arlwyo'r Brifysgol a'r Prif Chef Aled Closs-Davies, ochr yn ochr â gweithdy dan arweiniad Cegin Y Bobl, sef sefydliad nid-er-elw sydd wedi ymrwmo i gynnig addysg drochol ym maes bwyd. Yn ystod y gweithdy, cafodd y myfyryr brofiad ymarferol o wneud bara a pharatoi cawl.

Bu myfyryr yn archwilio sut mae ein dewisiadau bwyd yn effeithio'n sylweddol ar ein hiechyd, ein cymdeithas, a'r amgylchedd, yn ogystal ag effeithio ar iechyd meddwl a chynaliadwyedd. Roedd y digwyddiad yn pwysleisio bod gan bawb ran i'w chwarae mewn gwneud gwahaniaeth trwy eu dewisiadau bwyd, a daeth i ben gyda thrafodaeth bord gron a ysgogodd sgysiau am gynhyrchu bwyd.



## GWEITHREDIADAU


### Mae Pantri yma i helpu myfyryr efo bwyd a hanfodion

Er mwyn ychwanegu at y cymorth sydd eisoes yn bodoli i'n myfyryr, rydym wedi lansio Pantri eleni - adnodd sy'n darparu bwyd hirhoedlog, byrbrydau, prydau hawdd eu paratoi, cynhyrchion glanhau, ac eitemau hylendid personol os ydy rywun yn wynebu caledi ariannol.



### Data Gwastraff Bwyd

2024/25 Cyfanswm Gwastraff i bob Llif Gwastraff



■ Ailgylchu ■ Compostio ■ Treuliad Anerobig ■ Adfer Ynni

Cyfanswm Gwastraff i bob Llif Gwastraff 2024/25

### Polisi Bwyd Cynaliadwy

Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd cynnig darpariaeth arlwyo ragorol gydag ystyriaeth ddyladwy i'r amgylchedd, ochr yn ochr â'u cyfrifoldeb i gynnig dewis o opsiynau bwyd, gan gynnwys bwyd iach a chynaliadwy i'n myfyryr, staff ac ymwelwyr. Lle bynnag y bo'n bosibl byddwn yn gweithio i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol a chymdeithasol i'r dewis o nwyddau a gwasanaethau y byddwn yn eu darparu. Mae ein Polisi Bwyd Cynaliadwy yn cefnogi'r mentrau bwyd iach a chynaliadwy ac amgylcheddau cynaliadwy.



**3** IECHYD A  
LLESANT DA

## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

### Cynhadledd Ryngwladol Ymwybyddiaeth Ofalgar 2024

Wnaeth [Prifysgol Bangor](#) trefnu [cynhadledd ICM:2024](#) yn Awst mewn cydweithrediad â'r Rhwydwaith Ymwybyddiaeth Ofalgar. Wnaeth thema'r gynhadledd canolbwyntio ar bum llinyn allweddol, yn rhychwantu'r ymchwil diweddaraf, dulliau myfyriol a chysyniadau arloesol. Ddaru hyn cynnwys mynd i'r afael â'r amcanion cymdeithasol a byd-eang niferus ar gyfer ymwybyddiaeth ofalgar a thosturi, pob un wedi ei anelu at wella ein hiechyd a'n lles, lliniaru gwrthdaro a straen, ac yn y pen draw, dod â budd i'r blaned. Mae Canolfan Ymchwil ac Ymarfer Ymwybyddiaeth Ofalgar ym Mangor yn un o'r sefydliadau hyfforddi athrawon ymwybyddiaeth ofalgar fwyaf a hynaf yn y DU.

### Dyfais feddygol flaengar yn newid y gêm wrth ymchwilio a gwneud diagnosis

Gallai dyfais feddygol flaengar sy'n puro a chrynhoi wrin newid y gêm wrth ymchwilio a gwneud diagnosis o gyflyrau iechyd gan gynnwys canser. Gyda chefnogaeth [Prifysgol Bangor](#), i ddadansoddi a gwerthuso'r broses awtomataidd, datblygodd Bee Robotics Cyf o Gaernarfon brototeip sy'n puro wrin i adael sampl crynodedig ar gyfer dadansoddiad biolegol.

## Nod: Sicrhau bywydau iach a hyrwyddo llesiant i bawb o bob oed

## YMCHWIL

### Model AI yn rhagfynegi risg anafiadau

Mae'r model deallusrwydd artiffisial cyntaf sy'n gallu rhagfynegi risg anafiadau digyswllt i goesau ymhlith chwaraewyr rygbi wedi'i ddatblygu gan [ymchwilyr Bangor](#). Mae'r model yn defnyddio dull dadansoddi adnabod patrymau i nodi'r ffactorau cymhleth a rhyng-gysylltiedig a all arwain at anafiadau megis troi ffêr, rhwyg neu ysigiad i'r gewynnau, ac achosion mwy difrifol o anafiadau straen i'r cyhyrau. Anafiadau i'r coesau yw'r math mwyaf cyffredin yn rygbi'r undeb, gan gyfrif am tua hanner y dyddiau a gollir oherwydd anafiadau yn y gêm ryngwladol.

### Economegydd gofal cymdeithasol yn derbyn Cymrodoriaeth Uwch o fri

Mae [economegydd gofal cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor](#), wedi derbyn Cymrodoriaeth Uwch o fri gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Bydd y Gymrodoriaeth hon, o bron i £540k, yn canolbwyntio ar ymchwil i fesur gwelliant mewn gofal sgrinio serfigol i ferched sydd wedi profi trais a chamdriniaeth rywiol.

### Adfer Symudiad Echddygol ar ôl Strôc

Strôc yw un o brif achosion anabledd y byd, gan achosi problemau symud, yn enwedig yn y breichiau, sy'n gwneud gweithgareddau bob dydd yn heriol i oroeswyr. Mae adsefydlu cynnar, dwys yn hanfodol er mwyn gwella, ond mae amser cyfyngedig clinigwyr yn cyfyngu ar amlder y sesiynau sydd ar gael. I helpu hyn, mae [ymchwilyr Bangor](#) yn datblygu offer adsefydlu newydd, y gall goroeswyr strôc eu defnyddio eu hunain er mwyn gwella ynghynt ac yn annibynnol.

## DYSGU A MYFYRWYR

### Myfyrwraig Bydwreigiaeth Fangor ymysg y rhai cyntaf i dderbyn Bwrsariaeth Cronfa Dr Llŷr Roberts

Ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, cyhoeddwyd enwau'r myfyrwyr cyntaf i ennill bwrsariaeth y Coleg er cof am y diweddar Dr Llŷr Roberts, fu farw'n sydyn ym Mehefin 2023 yn 45 mlwydd oed. Roedd Dr Llŷr Roberts yn ddarlithydd yn Ysgol Busnes Bangor, ac fel darlithydd cyfrwng Cymraeg yn y maes Busnes, derbyniodd Llŷr ganmoliaeth genedlaethol am ei waith.

Bydd [tri myfyriwr sy'n astudio Bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Bangor](#), Hana Jones, Mia Owen a Seren Mai, yn teithio i Sri Lanka i gael profiad o weithio yn yr adrannau geni yn yr ysbytai yno.

### Ffair Hunanofal

Yn fis Mai, wnaeth [Ffair Hunanofal](#) i fyfyrwyr cynnwys hachiau lles, ysbrydoliaeth ffurfwydd, bwydydd iachus, nawws planhigion, ac apiau sy'n gwneud edrych ar ôl eich hun yn syml a hwyl.

### Caffi Codi Calon i Fyfyrwyr Rhyngwladol

Mae [Caffi Codi Calon](#) yn ofod pwrpasol sy'n cynnig cymorth, cyngor ac adnoddau wedi'u teilwra ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol. Mae'n cael ei redeg gan dîm cyfeillgar Cefnogaeth a Lles Myfyrwyr bob Dydd Mawrth, ac yn darparu amgylchedd cyfrinachol a chroesawgar i drafod eich iechyd emosiynol a lles. P'un a ydynt yn addasu i fywyd mewn gwlad newydd neu ddim ond eisiau rhannu'r hyn sydd ar eu meddwl, bydd croeso cynnes i bawb.

### Cronfa Bangor yn cefnogi Clwb Cychod

Diolch i ariannu hael gan Gronfa Bangor, mae Undeb y Myfyrwyr wedi gallu cefnogi'r [Clwb Cychod](#) i uwchraddio ei fflyd fechan, a chafodd dau gwch oedd wedi'u difrodi eu trwsio'n llwyddiannus.

## GWEITHREDIADAU

### Lansio Ysgol Feddygol Gogledd Cymru: Cyfnod newydd ar gyfer addysg feddygol a gofal iechyd yng Ngogledd Cymru

3 Hydref, 2024 wnaeth weld [Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ym Mhrifysgol Bangor](#) cael ei lansio'n swyddogol. Mae'n garreg filltir bwysig yn yr ymdrechion i fynd i'r afael ag anghenion gofal iechyd Gogledd Cymru. Cafodd yr ysgol ei sefydlu i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o hyfforddi meddygon y dyfodol er mwyn gwasanaethu GIG Cymru a phobl y rhanbarth.

Mae'r garfan gyntaf o fyfyrwyr meddygol, sy'n cynnwys cymysgedd o bobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol a myfyrwyr graddedig, wedi dechrau astudio yn y Brifysgol. Nhw fydd y cyntaf i gael eu holl hyfforddiant meddygol yn y Gogledd. Bydd yr ysgol yn derbyn 80 o fyfyrwyr i ddechrau, ond bydd y nifer yn cynyddu'n raddol i gyrraedd 140 y flwyddyn o 2029-30 ymlaen. Dechreuodd y gwaith cynllunio ar gyfer yr Ysgol Feddygol newydd yn 2020, pan gytunodd Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru i weithio mewn partneriaeth i sefydlu'r ysgol.

### Ap iechyd meddwl yn rhad ac am ddim

Mae Prifysgol Bangor wedi ymuno â [Sorted: Mental Health](#) (enw blaenorol 'Feeling Good') i ddatblygu fersiwn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) o'r ap, sydd ar gael am ddim.

### Hyrwyddwr Gweithle Egniol

Fel rhan o ymrwymiad y Brifysgol i hyrwyddo iechyd a lles yn y gwaith, mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Lles wedi dyrannu rhan o gyllid iechyd a lles eleni gan Medr i recriwtio a hyfforddi Hyrwyddwyr Gweithle Egniol. Bydd yr Hyrwyddwyr gwirfoddol hyn yn cefnogi eu timau i gynnwys mwy o symudiadau corfforol yn eu diwrnod gwaith. Mae fideo sy'n archwilio effaith Hyrwyddwyr Gweithle Egniol [wedi cael eu creu](#).



## 4 ADDYSG O ANSAWDD

## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

### Wythnos Dysgu Gydol Oes Bangor

Wnaeth Prifysgol Bangor, â Grŵp Llandrillo Menai, cynnal Wythnos o Ddysgu Gydol Oes yn Awst. Oedd y digwyddiad ar agor i bawb, o'r gymuned, efo cyrsiau byr wedi eu cyflwyno gan arbenigwyr academaidd, gan gynnig cyfle unigryw i ehangu gwybodaeth mewn amgylchedd hamddenol a chyfeillgar.

### Canolfan Dysgu Cymunedol Bangor

Yn Fawrth, agorodd Ken Skates AS, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ganolfan Dysgu Cymunedol newydd ar Stryd Fawr Bangor. Mae Tŷ Cyfle yn darparu cyrsiau rhan-amser i drigolion Bangor a'r cyffiniau. Cynigir cyrsiau cyflogadwyedd, cyfrifiadur, technoleg ddigidol, ffotograffiaeth ddigidol ac ESOL am ddim i bawb dros 18 oed. Yn ogystal â chynnig cyfleoedd addysgol, Tŷ Cyfle yw cartref newydd Clinig Cyngor Meddygol Prifysgol Bangor lle gall y cyhoedd gael cefnogaeth gyfreithiol gyfrinachol yn rhad ac am ddim. Myfyrwyr y gyfraith ym Mhrifysgol Bangor fydd yn darparu'r gwasanaeth a hynny dan oruchwyliaeth cyfreithwyr cymwysedig ac uwch ddarlithwyr profiadol. Mae'r clinig yn gyfle i'r myfyrwyr gael profiad ymarferol wrth helpu trigolion lleol ymdrin â heriau cyfreithiol, trwy gynnig gwasanaeth Gymraeg a Saesneg.

**Nod: Sicrhau addysg gynhwysol a theg o ansawdd a hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb**

## YMCHWIL

### Prifysgol wedi sicrhau cyllid i ehangu eu Rhaglen Iaith a Llythrennedd

Mae tîm o ymchwilwyr dan arweinyddiaeth Prifysgol Bangor wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn parhau i ddatblygu, ehangu a gwerthuso rhaglen ymyrraeth RILL ar gyfer disgyblion ag anawsterau darllen. Mae RILL, sydd yn bresennol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg, yn rhaglen hynod effeithiol sy'n gwella sgiliau iaith a llythrennedd disgyblion ysgol gynradd. Mae'r rhaglen 20 wythnos wedi ei ddylunio ar gyfer plant 7-9 oed, ac yn targedu'r rheiny sydd angen cymorth ychwanegol.

### Mae trin bwllo fel problem pawb yn lleihau nifer yr achosion mewn ysgolion cynradd

Mae'r treial mwyaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig wedi dangos sut y gall rhaglen gwrth-fwllo strwythuredig, cost isel wella dynameg gymdeithasol mewn ysgolion cynradd a lleihau erledigaeth.

### 'Labordy Plant Bangor' i hybu ymchwil ac ymarfer yn y blynyddoedd cynnar

Lansiodd Prifysgol Bangor 'Labordy Plant Bangor', grŵp ymchwil sydd â'r nod o wella canlyniadau addysgol a lles plant yn Rhagfyr. Bydd y tîm amlddisgyblaethol yn ymchwilio i feysydd hollbwysig megis datblygiad iaith, llythrennedd a gwybyddiaeth gymdeithasol, ac yn defnyddio cyfuniad o asesiadau ymddygiadol, niwroddelweddu, a modelu cyfrifiadurol. Bydd y labordy hefyd yn arloesi gyda strategaethau newydd i weithio gyda phobl ifanc sydd â gwahaniaethau niwroddatblygiadol, gan helpu i ddeall eu hanghenion yn well a datblygu ymyriadau effeithiol i'w cefnogi.

## DYSGU A MYFYRWYR

### River and Sea Sense yn Cydweithio ag Academyddion a Myfyrwyr y Cyfryngau i Gynhyrchu Ffilm am Ddiogelwch Dŵr

Mae sylfaenydd River and Sea Sense, Debbie Ann Turnbull, MBE, wedi bod yn gweithio gyda myfyrwyr y cyfryngau ac academyddion o Brifysgol Bangor i gynhyrchu ffilm ddogfen fer i'r 'River and Sea Sense Training Academy.' Nod y fenter yw ehangu effaith River and Sea Sense yn y sector diogelwch dŵr ac atal boddi.

Crëwyd y ffilm gan [academyddion a myfyrwyr y cyfryngau a cherddoriaeth, ym Mhrifysgol Bangor](#), ac mae wedi ei chynhyrchu i'w harddangos i gynulleidfaoedd allweddol, gan gynnwys athrawon nofio, achubwyr bywyd, darpar gyllidwyr, noddwyr a sefydliadau ieuencid fel arf hyrwyddo pwerus. Bydd hefyd yn ymddangos ar wefan River and Sea Sense, i godi ymwybyddiaeth am y mater hollbwysig hwn ac annog unigolion a sefydliadau i gynnwys yr hyfforddiant 'plug-and-play' yn eu rhaglenni.

### Darpar-feddygon yn dysgu Cymraeg fel sgîl glinigol

Yn ddiweddar, canmolwyd carfan lawn gyntaf Prifysgol Bangor o fyfyrwyr meddygol, sy'n agosáu at ddiwedd blwyddyn gyntaf eu hastudiaethau yn [Ysgol Feddygol Gogledd Cymru](#), am eu hymdrechion i ddysgu Cymraeg ac ymgysylltu â'r cyd-destun ieithyddol y byddan nhw'n gweithio ynddo.

Datblygwyd y cwrs peilot 'Mwy na Geiriau - y Gymraeg fel sgîl glinigol' gan Ganolfan Bedwyr, Canolfan Gwasanaethau, Ymchwil a Thechnoleg y Brifysgol, mewn cydweithrediad â staff clinigol a staff cymorth yn yr Ysgol Feddygol ac o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yn ogystal â gwersi iaith, darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r myfyrwyr, er mwyn rhoi dealltwriaeth lawn iddynt o'r dirwedd ieithyddol y byddan nhw'n gweithio ynddi.

## GWEITHREDIADAU

### Dysgu Cymraeg

Mae [Canolfan Bedwyr](#), sef Canolfan Gwasanaethau, Technoleg ac Ymchwil Cymraeg y Brifysgol, yn cynnig cwrs blasu hunan-astudio ar-lein 10 awr yn rhad ac am ddim i staff a myfyrwyr ar lefel Dechreuwyr. Mae'r cwrs yn galluogi unrhyw un i weithio trwy'r cynnwys ar eu cyflymder eu hunain, a cheir cefnogaeth yn rhad ac am ddim gan diwtor i'ch helpu i gwblhau'r cwrs.


### Darlithoedd Cyhoeddus

Yn eu plith mae astroffiseg a chwedlau hynafol, deallusrwydd artifisial a chrefft adrodd straeon. Mae ein cyfres o [Ddarlithoedd Cyhoeddus](#) yn rhychwantu llawnder gwybodaeth ddynol yn ei holl agweddau. Mae'n siŵr y bydd rhywbeth i danio brwdfrydedd pawb.

Cewch wrando'n uniongyrchol ar academyddion adnabyddus, awduron arobryn, ac arweinwyr o fyd diwydiant - yr union bobl sy'n llunio'r dyfodol. Cewch gymryd rhan mewn trafodaethau bywiog, gofyn cwestiynau llosg, a chael golwg unigryw ar bethau gan rai sy'n flaenllaw yn eu meysydd. Mae'r Darlithoedd Cyhoeddus yn agored i bawb – myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr, aelodau o'r gymuned, a meddylwyr chwilfrydig o bob oed, ac mae pob un o'r Darlithoedd am ddim.

### Gwasanaethau Llyfrgell ac Archifau

Gall unrhyw un ymweld â'r [Brif Lyfrgell neu â Llyfrgell Wrecsam y Brifysgol](#) i bori drwy'r adnoddau ar ein silffoedd a'u defnyddio at ddibenion cyfeirio. Gallwch hefyd chwilio ein catalog llyfrgell o'r gartref, neu yn defnyddio'r cyfrifiaduron catalog yn y llyfrgell.





**5** CYDRADDOLDEB  
RHYWIOL

## YMCHWIL

### Rhywedd mewn rhyngweithiadau rhwng athrawon a disgyblion

Bu astudiaeth gan Brifysgol Bangor yn archwilio i'r ddeinameg rhywedd mewn rhyngweithiadau rhwng athrawon a disgyblion yn ystod tasg cynllunio llwybr mewn dosbarthiadau gwyddoniaeth, gan archwilio chwe dosbarth - tri dosbarth Blwyddyn 5 (8–9 oed) a thri dosbarth Blwyddyn 6 (10–11 oed) - mewn ysgolion rhyngwladol cyfrwng Saesneg yn yr Iseldiroedd. Yn ôl y llenyddiaeth, mae'r blynyddoedd penodol hyn yn arddangos newid nodedig yn natblygiad hunaniaeth rhywedd plant, er enghraifft mewn perthynas â meysydd lle mae dynion yn y mwyafrif. Mae eu canfyddiadau'n tynnu sylw at y rhyngweithio cymhleth rhwng rhagfarnau rhywedd, rhyngweithiadau rhwng athrawon a disgyblion, ymgysylltiad disgyblion, a pherfformiad ar dasgau gofodol, gan gynnig goblygiadau i addysgwyr sy'n anelu at feithrin amgylcheddau dysgu teg a chynhwysol.



## Nod: Cyflawni cydraddoldeb rhywedd a grymuso'r holl ferched a genethod

## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

### Cynhadledd Archif Menywod Cymru 2024

Cynhaliwyd Cynhadledd Flynnyddol Archif Menywod Cymru ym Mangor yn Hydref. Wnaeth rhaglen gyffrous a diddorol o bapurau gan haneswyr profiadol a newydd gynnwys:

- Lizzy Walker, 'Menywod yn berchen ar ac yn ddeiliaid tir yng ngogledd-ddwyrain Cymru: Tystiolaeth o brydlesoedd yr 17eg a'r 18fed ganrif'
- Dr Meinir Moncrieffe, 'Rhodd duw yw dynes radlon a gonest a does trysor cyffelyb iddi': Camdriniaeth mud Gwragedd y Bonedd Cymraeg'
- Dr Shaun Evans, 'Boneddigesau, Gweithgaredd Hynafiaethol ac Ymwybyddiaeth Hanesyddol Gymreig yn y 19eg Ganrif'

Oedd yna gyfle hefyd i glywed am brosiectau diweddaraf AMC - Merched a Chwaraeon a Chymru a Gosod y Record yn Syth (Cipio lleisiau merched yng ngwleidyddiaeth Cymru).

### Cyflymu Gweithredu, Ysbrydoli Gyrfaoedd mewn Gwyddor Môr

Yn Chwefror, ar Ddiwrnod Rhyngwladol Menywod a Merched mewn Gwyddoniaeth, wnaethom ddatlu cyfraniadau merched ym maes gwyddor môr trwy ddigwyddiad cydweithredol gan The Wild Oysters Conwy Project a Chymdeithas Endeavour Prifysgol Bangor. Nod y digwyddiad yw ysbrydoli a grymuso pobl ifanc, myfyrwyr, ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa, a gweithwyr proffesiynol trwy arddangos llwybrau gyrfa amrywiol ar draws gwahanol sectorau a chyfnodau gyrfa ym maes gwyddor môr. Bu'r noson hefyd cynnwys trafodaeth am lwybrau gyrfa merched, a sesiwn rwydweithio i rannu syniadau ac archwilio cyfleoedd ym maes gwyddor môr.

## DYSGU A MYFYRWYR

### Dyfarnu Ysgoloriaethau Bangor Gynhwysol 2024/2025

Mae tair Ysgoloriaeth Bangor Gynhwysol wedi eu dyfarnu i dri o raddedigion eithriadol Prifysgol Bangor, sef Charlie Cross, Esta McInnes a Courtney Turner.

Mae'r ysgoloriaethau (sy'n talu am hyd at £9500 o ffioedd cwrs) yn cefnogi myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau ym Mangor. Nod yr ysgoloriaethau yw tynnu sylw at amrywiaeth a chynwysoldeb ein poblogaeth o fyfyrwyr a dathlu hynny, er mwyn sicrhau bod llais a phrofiad myfyrwyr yn rhan o agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb ac agenda Athena Swan y brifysgol ac er mwyn cefnogi datblygiad gyrfar' myfyrwyr hynny sy'n cyfrannu at y ddau agenda pwysig hyn.

Y tri derbynnydd yw:

- Charlie Cross, MA mewn Ieithyddiaeth;
- Esta McInnes, MSc mewn Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer Corff;
- Courtney Turner, MSc mewn Dylunio Arloesi Cymhwysol.

### Adennill y Noson - sefyll fyny yn erbyn camymddwyn rhywiol a thrais ar sail rhywedd

Yn Rhagfyr wnaeth myfyrwyr ag Undeb Bangor, cymryd rhan yn Adennill y Noson, gorymdaith i lawr y Stryd Fawr i sefyll yn erbyn camymddwyn rhywiol a thrais ar sail rhywedd. Dilynir yr orymdaith efo areithiau ysbrydoledig a chynulliad yn Undeb y Myfyrwyr am drafodaethau pellach.

### Data Myfyrwyr 2023/2024

Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynnyddol diweddaraf yn nodi, mae'r rhaniad rhwng myfyrwyr benywaidd a gwrywaidd ym Mangor wedi aros ar gyfartaledd o 60% a 40% dros y pum mlynedd diwethaf. Mae cyfran y myfyrwyr benywaidd ym Mangor ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU o 57%.

## GWEITHREDIADAU

### Diwrnod Rhyngwladol y Merched: Merched mewn Chwaraeon, Cyflymu Gweithrediad Arweinyddiaeth

Yn Fawrth, wnaeth Prifysgol Bangor, mewn cydweithrediad â Chwaraeon Merched Cymru, cynnal digwyddiad cyffrous yn mynd i'r afael ag Arweinwyr Benywaidd mewn Chwaraeon. Wnaeth y digwyddiad cael ei arwain gan Laura McAllister. Mae Laura McAllister yn Athro Polisi Cyhoeddus a Llywodraethu Cymru yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd. Bu panel o ferched o'r byd chwaraeon ac o yrfaedd amrywiol ymuno â Laura:

- Kate Hannon - Aelod o Fwrdd Chwaraeon Merched Cymru a Chyfarwyddwr Fearless Women.
- Hannah Powell - Athletwraig bu'n cystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad, mae'n Hyfforddwr Codi Pwysau, ac yn Swyddog Cefnogi Busnes Chodi Pwysau Cymru.
- Tricia Sterling - Phennaeth Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor a Prif Hyfforddwr Academi Genedlaethol Pêl-rwyd Dan 15 Cymru a'r Powys Sparks. Mae hi hefyd yn arwain Academi Ranbarthol Pêl-rwyd Gogledd-ddwyrain Cymru ac yn hyfforddi Carfan Hŷn Kingsway Power.
- Dr Sophie Harrison - Darlithydd mewn Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff.

Bu'r panel yn adfyfrio ar y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at gydraddoldeb rhyw yn y byd chwaraeon, y teithiau a'r heriau sydd o'n blaenau o hyd, a'r rôl hollbwysig y mae merched yn ei chwarae yn hyn o beth.





## YMCHWIL

### **Dyfarnu Gwobr Philip Leverhulme i academydd am ymchwil arloesol ar ecosystemau dŵr croyw**

Mae Dr Iestyn Woolway, gwyddonydd hinsawdd o Brifysgol Bangor, wedi cael ei anrhydeddu â Gwobr Philip Leverhulme 2024 i gydnabod ei ymchwil i effeithiau newid yn yr hinsawdd ar lynnoedd ac ecosystemau dŵr croyw ledled y byd. Dyfernir y wobr fawreddog hon i ysgolheigion y mae eu gwaith eisoes wedi gwneud cyfraniad rhyngwladol sylweddol ac sy'n dangos addewid eithriadol ar gyfer y dyfodol.

### **Gallai newid hinsawdd fod yn cynyddu eich siawns o ddal firws o garthion**

Gyda chynnydd yn amllder stormydd glaw estynedig a thonnau gwres, gall newid hinsawdd gynyddu'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â firysau sy'n gysylltiedig â charthion mewn afonydd, llynnoedd a dyfroedd arfordirol. O ganlyniad, mae carthion amrwd heb eu trin yn cael eu rhyddhau i afonydd, llynnoedd a dyfroedd arfordirol. Mae ymchwil newydd ei gyhoeddi gan Brifysgol Bangor yn dangos y gall firysau sy'n gysylltiedig â charthion barhau am ddyddiau mewn rhai amodau tywydd, gan greu risgiau iechyd i bobl sy'n dod i gysylltiad â gollyngfeydd heb eu trin.

## **Nod: Sicrhau bod dŵr a glanweithdra ar gael i bawb a'u bod yn cael eu rheoli'n gynaliadwy**

## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

### **Bangor yn uwch-gynhadledd genedlaethol i daclo argyfwng llygredd afonydd**

Mae athro Brifysgol Bangor wedi cymryd rhan mewn uwch-gynhadledd genedlaethol i daclo'r argyfwng sy'n wynebu afonydd Cymru. Bu'r digwyddiad a drefnir gan yr Eglwys yng Nghymru yn Dachwedd efo mwy na 90 o bobl o bob rhan o'r DU, yn cynnwys gwyddonwyr, ffermwyr, amgylcheddwyr a chynrychiolwyr y diwydiant dŵr yn dod ynghyd i drafod yr heriau sy'n wynebu cyrsiau dŵr yng Nghymru ac i edrych ar ffyrdd o wella ansawdd dŵr. Oedd y themâu yn cynnwys trosolwg o'r data gwyddonol diweddaraf, cyflwr ansawdd dŵr, effaith carthffosiaeth, amaethyddiaeth a phridd ar afonydd, yr effaith ar y gadwyn fwyd a phosiblwydd datrysiadau seiliedig ar natur.

### **Ehangu gwasanaeth profi dŵr gwastraff**

Mae Prifysgol Bangor wedi cyhoeddi partneriaeth unigryw gyda Verily i ehangu ei rhaglen gwyliadwriaeth dŵr gwastraff i'r DU ac Ewrop. Bydd y cydweithredu rhyngddynt yn dyrchafu galluedd y brifysgol a'i rhaglen gwyliadwriaeth iechyd cyhoeddus sy'n seiliedig ar ddŵr gwastraff a'i phrif labordy profion. Mae gallu'r Brifysgol i fonitro dŵr gwastraff yn arwain y farchnad yn y DU lle mae bio-wyliadwriaeth amgylcheddol yn y cwestiwn a labordy'r brifysgol fel un o'r canolfannau ymchwil a datblygu ar gyfer Asiantaeth Diogelwch Iechyd y Deyrnas Unedig (UKHSA) a Llywodraeth Cymru. Mae rhaglen dŵr gwastraff Verily yn cynnig logisteg a gwyliadwriaeth i brofi am bathogenau mewn dŵr gwastraff, a'u monitro a'u canfod yn amserol er mwyn sicrhau camau gweithredu cyflymach a mwy union ym maes iechyd y cyhoedd.

# DYSGU A MYFYRWYR

## Staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor yn ymuno â miloedd yn Llundain i brotestio yn erbyn llygru afonydd

Ymunodd staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor â thyrfa o filoedd yn Llundain i alw am fwy o weithredu i leihau'r llygredd sy'n mynd i mewn i afonydd a'r môr. Trefnwyd yr orymdaith March for Clean Water yn Tachwedd gan River Action a'r ymgyrchydd Feargal Sharkey.

Prifysgol Bangor oedd y brifysgol gyntaf i ymuno â'r rhestr o gefnogwyr swyddogol y digwyddiad. Mae'r aelodau eraill yn cynnwys Surfers Against Sewage, Clean Water Sports Alliance, Rhwyf Prydain, Canŵio Prydain, RSPB, Sefydliad y Merched, yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, yr Ymddiriedolaeth Genweirio, yr Ymddiriedolaeth Afonydd, a Chymdeithas y Pridd.

Aeth grŵp o staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor, wedi eu gwisgo mewn cotiau labordy gyda brand y brifysgol arnynt, i'r orymdaith gyda'r Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol, yr Athro Christian Dunn.



Staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor yn mynychu a'r protest yr Orymdaith March for Clean Water yn Llundain


### Astudio

Mae ein BSc Gwyddor Amgylcheddol yn cynnwys modiwlau sy'n ymdrin â rheoli afonydd, defnydd dŵr/tir, llygredd pridd a dŵr, geomorffoleg, microplastigion, metelau trwm, ac effeithiau dynol ar ddŵr croyw a phrinder dŵr.

# GWEITHREDIADAU

## Defnydd Dŵr

Yn ystod 2024/25, defnyddiodd Prifysgol Bangor fwy na 115,600 metr ciwbig o ddŵr. Mae'r Brifysgol yn gosod targedau iddi'i hun i leihau'r defnydd o ddŵr fel rhan o'i System Rheoli Amgylcheddol. Rhwng 2005 a 2025, gostyngwyd cyfanswm y defnydd o ddŵr 39.1% fesul arwynebedd llawr m2.



Defnydd Dŵr Prifysgol Bangor

## Dŵr yfed am ddim

Mae'r Brifysgol yn darparu dŵr yfed am ddim yn y mwyafrif o'i hadeiladau. Yn ogystal, mae nifer o fannau i ail-lenwi poteli dŵr ledled y safle yn unedau arlwyo a manau eraill.



Map Mannau Ail-lenwi Dŵr Prifysgol Bangor

## Trin Dŵr Gwastraff

Mae'r ddŵr gwastraff ar gyfer safleoedd sy'n gysylltiedig â'r prif gyflenwad yn mynd i system garthffosiaeth Cymru Dŵr Cymru. Mae safleoedd digyswllt yn bwydo i ffosydd cerrig trwyddedig neu danciau carthion a reolir.



## YMCHWIL

### Prifysgol Bangor yn cael ei dewis i gyfrannu at Raglen LIBRTI

Wrth i'r byd wynebu'r angen brys am ddatrysiadau ynni adnewyddadwy a glân, mae ymasiad yn dod i'r amlwg fel rhan hollbwysig o ynni byd-eang yn y dyfodol. Mae rhaglen Arloesedd Tritiwym Bridio Lithiwm (LIBRTI) gwerth £200 miliwn Awdurdod Ynni Atomig y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi cyfres o gamau sylweddol i hyrwyddo datblygiad ynni ymasiad.

Mae rhaglen LIBRTI, rhan o fenter ehangach Fusion Futures, yn canolbwyntio ar arloesi datblygiadau tanwydd ymasiad, ac ysgogi capasiti cyffredinol y diwydiant trwy gydweithrediad rhyngwladol. Yn ystod ei chyfnod o bedair blynedd, nod y rhaglen yw arddangos bridio tritiwm dan reolaeth, sy'n gam hollbwysig i orsafoedd ynni ymasiad yn y dyfodol. Fel rhan o'r ymdrech hon, bydd Awdurdod Ynni Atomig y Deyrnas Unedig yn darparu £9 miliwn mewn cyllid ar gyfer 12 o arbrofion efelychu digidol a bridio tritiwm ar raddfa fach. O'r 12 hyn, mae [Prifysgol Bangor](#) wedi cael ei dewis am ei harbenigedd i gyfrannu at y Rhaglen LIBRTI. Mae'r Brifysgol yn chwarae rhan hanfodol yn yr ymdrech hon drwy ddatblygu dulliau newydd i sicrhau gweithrediad diogel ac effeithlon blancedi bridiol i'w defnyddio o fewn y system adweithyddion ymasiad.

**Nod: Sicrhau bod ynni fforddiadwy, dibynadwy, cynaliadwy a modern ar gael i bawb**

## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

### Cyfleuster ymchwil i ehangu ymchwil a datblygu ym maes datgarboneiddio

Agorodd cyfleuster ymchwil newydd arloesol yn [fis Tachwedd](#) yn Tŷ Gwyrddfai ym Mhen-y-groes, a fydd yn datgloi'r potensial i gynnal ymchwil i gartrefi mwy cynaliadwy, cost-effeithiol ac iach. Mae'r cyfleuster, a ariennir gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Cyffredin, yn cael ei ddatblygu drwy gydweithrediad rhwng [Prifysgol Bangor](#), Adra a Busnes@LlandrilloMenai.

Mae partneriaid yn awyddus i gydweithio ar brojectau ymchwil gyda chwmnïau mawr a busnesau bach a chanolig i brofi eu cynnyrch mewn amgylchedd rheoledig deuol.

### Clwstwr Datgarboneiddio Diwydiannol Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWID)

Mae [dau academydd Bangor](#) wedi cyfrannu at broject proffil uchel a arweinir gan ddiwydiant sy'n dangos y gall gogledd-ddwyrain Cymru arwain y ffordd o ran datgarboneiddio diwydiant er budd busnesau a chymunedau ar draws y rhanbarth. Yn Chwefror wnaeth Clwstwr Datgarboneiddio Diwydiannol Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWID) datgelu ei gynllun clwstwr newydd sbon, gan roi hwb i strategaeth ddatgarboneiddio diwydiannol ar draws gogledd-ddwyrain Cymru, yn 2025 a thu hwnt. Mae'r cynllun yn amlinellu ei bod yn bosibl datgarboneiddio'r clwstwr erbyn 2040, gyda Dal a Storio Carbon (CCS) a hydrogen fel y prif yrwyr ochr yn ochr â datblygu a defnyddio seilwaith yn y 2020au a dechrau'r 2030au. Mae partneriaid y project yn cynnwys Uniper, Prifysgol Bangor, Wales & West Utilities, SP Energy Networks, a Systemau Ynni Sero Net.

## DYSGU A MYFYRWYR

### Astudio

Mae ein MSc Ynni Adnewyddadwy'r Môr yn rhoi'r sgiliau i fyfyrwyr sydd eu hangen i nodi a mesur potensial rhanbarthau ar gyfer gosodiadau ynni adnewyddadwy'r môr, gyda phwyslais ar adnodd, dadansoddi cyfres amser, modelu rhifiadol, a'r sialensiau a wynebir wrth roi rhesi o ddyfeisiadau cynhyrchu ynni yn amgylchedd y môr.

Mae'r cwrs ôl-radd hyfforddedig 12 mis hwn yn cyflwyno myfyrwyr sydd â gradd gyntaf yn y gwyddorau ffisegol, gwyddorau mathemategol neu wyddorau rhifog eraill i bwnc Ynni Adnewyddadwy Morol. Yn ogystal â rhoi trosolwg o ynni adnewyddadwy morol, mae'r cwrs yn galluogi myfyrwyr i ymchwilio'n fanwl i'r agweddau hynny ar y pwnc y mae ganddynt ddiddordeb arbennig ynddynt. Mae'r cwrs yn rhoi pwyslais arbennig ar asesu adnoddau ynni tonnau a llanw, a natur geoffisegol safleoedd, gan roi'r sgiliau angenrheidiol y mae myfyrwyr eu hangen i ystyried nodweddion safleoedd adnoddau ynni adnewyddadwy'r môr o safbwynt damcaniaethol, technegol ac ymarferol.



### Graddau Ynni Adnewyddadwy Ôl-raddedig

Gyda graddau ym maes ynni adnewyddadwy, mae ein myfyrwyr ar y cyrsiau yma yn ymgymryd â lleoliadau ac interniaethau yn rheolaidd gyda chwmnïau pŵer mawr sy'n gweithio ym maes ynni adnewyddadwy. Mae ein hymchwil ym maes cynhyrchu ynni solar a'r genhedlaeth nesaf o baneli solar yn arwain yn y maes ac mae'n thema sy'n rhedeg trwy ein holl addysgu ac ymchwil.

## GWEITHREDIADAU

### Lleihau'r Defnydd o Ynni


Nod yr ymgyrch '25 erbyn 25' oedd lleihau 25% o allyriadau Cwmpas 1 a 2 erbyn 2025. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25, cyfrifwyd bod allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 y Brifysgol yn 5,771.03 tonnell CO<sub>2</sub>e, ostyngiad o 39.2% mewn termau llwyr, o'i gymharu â 2018/19.

### Defnydd Ynni ym Mangor

Yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, defnyddiodd Prifysgol Bangor oddeutu 29.9 miliwn kWh (29.9 GWh) o ynni. Roedd y rhan fwyaf o'r egni hwn (15.4 miliwn kWh, tua 51.5%) ar ffurf nwy naturiol ar gyfer gwresogi adeiladau a darparu dŵr poeth. Cyfanswm yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â defnydd y Brifysgol o nwy naturiol oedd 2,820 tonnell CO<sub>2</sub>e ar gyfer 2024/25.

Trydan ar gyfer goleuadau, cyfrifiaduron ac offer arall oedd y math mwyaf arwyddocaol nesaf o ddefnydd ynni yn y Brifysgol (13.7 miliwn kWh oddeutu 45.9%). Roedd y 2.6% arall o'r defnydd o ynni ar ffurf LPG ac Olew Gwresogi, i ddarparu gwres i'n hadeiladau nad ydynt wedi'u cysylltu â phrif gyflenwad nwy.

Ein cyfanswm defnydd o ynni yn ystod 2024/25 oedd 5,409.01 tonnell o CO<sub>2</sub>e, ac o hyn roedd 2,404.13 tonnell o CO<sub>2</sub>e yn ynni carbon isel. Cynhyrchwyd 153,755.90 kWh gan baneli solar ar y to.



Cyfanswm Defnydd Ynni Prifysgol Bangor



## 8 GWAITH TEILWNG A THWF ECONOMAIDD

### YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

#### Cynllun newydd a fu o fudd i rieni ifanc ac i fyfyrwr sydd newydd raddio o Fangor

Trwy gymryd rhan yn y Cynllun Talebau Talent i Raddedigion, a ariennir gan Gronfa Ffyniant Cyffredin y Deyrnas Unedig, Lywodraeth y DU cafodd Gwen Owen graddedig Bangor gipolwg ar y cyfleoedd sydd ar gael yn lleol wrth iddi wneud lleoliad estynedig gyda GISDA, yr elusen i bobl ifanc. Fel rhan o'i lleoliad, mae Gwen wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â thîm cefnogi tai GISDA er mwyn cefnogi rhieni ifanc.

#### Lansio Pecyn Recriwtio Gweithlu Dwyieithog

Cafodd Pecyn Recriwtio Gweithlu Dwyieithog, a ddatblygwyd gan yr Ysgol Hanes, Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas y Brifysgol, ei lansio mewn digwyddiad a fynychwyd gan 100 o gyflogwyr ac ymarferwyr o Gymru. Nod y project, a ariennir gan Gronfa Her ARFOR Llywodraeth Cymru, yw cynorthwyo cyflogwyr i fynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio siaradwyr Cymraeg, a thrwy hynny gefnogi oedolion ifanc sy'n dymuno aros yn eu cymunedau lleol. Agorwyd y digwyddiad gan Ddirprwy Gomisiynydd y Gymraeg, Osian Llywelyn, ac yn cynnwys paneli trafod gydag oedolion ifanc, cyflogwyr ac academyddion Brifysgol Bangor a Gwlad y Basg.

**Nod: Hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy, cynhwysol a chyson, cyflogaeth lawn a chynhyrchiol a gwaith o safon i bawb**

### YMCHWIL

**Astudiaeth yn datgelu gostyngiad difrifol ar ôl Brexit mewn benthycu i fusnesau bach a chanolig mewn ardaloedd gwledig**

Bu gostyngiad sylweddol ar ôl Brexit mewn benthycu i Fusnesau Bach a Chanolig mewn ardaloedd gwledig ac ymylol, yn ôl astudiaeth newydd. Datgelodd yr ymchwil, dan arweiniad academyddion ym Mhrifysgol Bangor, hefyd grebachiad benthycu blynyddol sylweddol o 4.8% i fusnesau bach a chanolig yn y DU yn dilyn y bleidlais Brexit o'i gymharu â gwledydd Ewropeaidd tebyg. Mae'r papur yn awgrymu bod hyn o bosibl wedi cyfrannu at dwf economaidd araf y Deyrnas Unedig ar ôl Brexit. Parhaodd yr effaith hon mewn sawl cyfeiriad, yn enwedig yn ystod cerrig milltir allweddol Brexit, megis Erthygl 50 a Bil Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gan adlewyrchu'r ansicrwydd hirfaith a achoswyd gan yr ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd.

#### Ymchwil yn ystyried sut y gall cymunedau gydweithio i sicrhau newid cadarnhaol

Bydd academyddion yn ymchwilio i sut mae dinasyddion, sefydliadau cymdeithas sifil a llunwyr polisïau'n cydweithio i fynd i'r afael â rhai o broblemau mwyaf dybryd cymdeithas. Mae Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru wedi sicrhau £1.6m gan Gyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yr UKRI ar gyfer y rhaglen ymchwil tair blynedd, 'Pobl, Lleuedd a'r Maes Cyhoeddus', a fydd yn cynnwys pedair thema ymchwil: Gweithleoedd a democratiaeth gyfranogol a bydd yn canolbwyntio ar yr Agenda Gwaith Teg, Hawliau, ffoaduriaid a chymunedau ar y cyrion, Llywodraethu cydweithredol a gwleidyddiaeth gydgyngorol ac Economiau Lleol ac arloesedd yn seiliedig ar le i gefnogi twf economaidd.

## DYSGU A MYFYRWYR

### Cyfleoedd Interniaeth gyda thâl

Mae'r [Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd](#) yn cynnig Interniaethau ar lefel raddedig â thâl i'n myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig trwy ddygsgu. Mae'r cyfleoedd yn amrywio o ymchwil, marchnata, cynllunio digwyddiadau, gwaith labordy a mwy. Mae myfyrwyr yn cael y cyflog byw go iawn ac ennill sgiliau amhrisiadwy fel gweithio mewn tîm, rheoli amser, a rheoli projectau. Enghreifftiau o'r prosiectau diweddar oedd Datblygwr Cynnwys Digidol, Gwella'r Prosesau Busnes a Gweithredu Deallusrwydd Artiffisial, Cynhadledd Entrepreneuriaeth Wledig, a Swyddog Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i Ardd Fotaneg Treborth.

### Wythnos fy Ngyrfa Raddedig

Digwyddiad wythnos gyfan i grymuso myfyrwyr i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r byd proffesiynol yw [Wythnos fy Ngyrfa Raddedig](#). Prif ddiwyddiad yr wythnos yw'r Ffair Yrfaoedd a Chyflogadwyedd a hefyd bydd gweithdai gyrfaol sydd wedi'u cynllunio i wella sgiliau cyflogadwyedd a byddant yn rhoi sylw i bynciau megis llunio CV, profiad gwaith a sgiliau menter. Oedd yna hefyd cyfle i gael llun proffesiynol ar gyfer LinkedIn wedi ei dynnu.

### Astudio neu weithio dramor yn ystod gradd Prifysgol Bangor

Mae bron pob un o raddau israddedig Prifysgol Bangor yn cynnig rhaglen [Blwyddyn Profiad Rhyngwladol](#) i weithio neu astudio dramor rhwng yr ail a'r drydedd flwyddyn neu ar ôl y drydedd flwyddyn a chyn graddio.

Yr opsiynau yw:

- Blwyddyn o astudio dramor: mewn prifysgol bartner dramor (does dim rheid talu ffioedd dysgu yn y brifysgol bartner).
- Blwyddyn o weithio dramor: rydych chi'n canfod interniaeth gwaith cyflogedig/di-dâl amser llawn mewn cwmni/sefydliad tramor addas.

## GWEITHREDIADAU

### Cyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer cyfleusterau biotechnoleg amgylcheddol ym Mhrifysgol Bangor

Bydd buddsoddiad sydd bellach wedi cael ei gymeradwyo yn sicrhau offer a gofod labordy yn y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol + (CEB+), ac yn golygu y bydd yn symud ymlaen i gael ei weithredu. Daw hyn yn dilyn cymeradwyo'r achos cyfiawnhad busnes ar gyfer y prosiect CEB+ gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - gan sicrhau cyllid o Gynllun Twf y rhanbarth.

Bydd y prosiect yn ymchwilio i ensymau unigryw a'r defnydd posib ohonynt fel cynhyrchion a phrosesau fydd yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd na deunyddiau cyfredol a chemegau diwydiannol. Bydd y cyfleuster newydd yn caniatáu i'r rhai sy'n cydweithio ar hyn i edrych ar yr ensymau a'r defnydd o brosesau biolegol fel dewisiadau carbon isel amgen.

Yn ogystal, bydd y cyfleuster newydd sydd wedi'i leoli ar [safle Henfaes Prifysgol Bangor](#), yn creu cyfleoedd cyflogaeth newydd yn y rhanbarth. Gyda'r potensial i greu hyd at 65 o swyddi newydd, cynhyrchu hyd at £15m net o GVA ychwanegol ac uwchsgilio busnesau, mae effaith y Ganolfan yn anelu at fod yn drawsnewidiol i Ogledd Cymru.

### Prifysgol Bangor yn addo ei hymrwymiad i staff technegol

Mae [Prifysgol Bangor](#) yn falch o fod yn un o lofnodwyr mwyaf newydd yr Ymrwymiad i Dechnegwyr, gan adlewyrchu ein hymroddiad cryf i wella amlygrwydd, cydnabyddiaeth a datblygiad gyrfa ein staff technegol.

Trwy ymuno â'r Ymrwymiad i Dechnegwyr, mae'r Brifysgol yn addo gwella cynaliadwyedd a datblygiad ei gweithlu technegol. Mae'r aelodau staff hyn yn ganolog i lwyddiant addysgu, ymchwil ac arloesi, ond maent yn aml yn gweithredu y tu ôl i'r llenni.



## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

### Prifysgol Bangor yn cynnal cynhadledd ddylunio ac arloesi 'fydd yn ysbrydoli'

Wnaeth Prifysgol Bangor cynnal cynhadledd ddylunio ac arloesi 'fydd yn ysbrydoli' yn Ebrill. Ddaru'r digwyddiad undydd, [Talk Design 25](#), arddangos y tueddiadau a gwybodaeth ddiweddaraf gan arweinwyr yn y diwydiant.



### Cynhadledd Entrepreneuriaeth Wledig

Cynhelir yr 22ain Gynhadledd Entrepreneuriaeth Wledig ym [Mhrifysgol Bangor a Champws M-Sparc](#) ar Ynys Môn yn Fehefin. Yn dilyn cyfnod clo diweddar a newidiadau gwleidyddol mae cymunedau gwledig yn gwynebu heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol parhaus. Oedd y gynhadledd hon yn chwilio am atebion creadigol i dyfu gwytnwch cymunedol ac economaidd a gyflawnir trwy arfer arloesol, polisi a phartneriaethau ar draws lle, graddfa a disgyblaethau.

**Nod: Adeiladu seilwaith cadarn, hyrwyddo diwydiannu cynhwysol a chynaliadwy a meithrin arloesi**

## YMCHWIL

### Partneriaeth prifysgolion Cymru yn gweithio i ganfod llygryddion a ddefnyddir yn y diwydiant awyrennau

Mae partneriaeth rhwng Prifysgol De Cymru (PDC) a [Phrifysgol Bangor](#) wedi sicrhau mwy na £400,000 mewn cyllid i ganfod llygryddion niweidiol a ddefnyddir yn y diwydiant awyrennau.

Fydd y prosiect yn datblygu offeryn arloesol ar gyfer canfod elfennau niweidiol o'r enw PFAS (sylweddau perfflworocalcyl a pholyfflworocalcyl), sydd i'w cael mewn deunyddiau awyrennau. Defnyddir PFAS yn helaeth mewn cynhyrchion fel pethau diffodd tân ac offer coginio nad sy'n glynu, ac mae'n ddrwg-enwog am ei hydwythedd a'r risgiau iechyd posibl y gall eu hachosi.

Roedd dulliau blaenorol a ddefnyddiwyd i ganfod PFAS, er yn effeithiol, yn ddrud ac yn cymryd llawer o amser. Roedd ganddynt heriau hefyd wrth nodi crynodiadau isel o'i elfennau cyfansoddol. Mae'r datrysiad newydd yn defnyddio techneg ddatblygedig sy'n hysbys fel SESRS (Surface-Enhanced Stimulated Raman Spectroscopy) sy'n fwy sensitif i PFAS ac sy'n gallu ei ganfod mewn crynodiad llawer is. Datblygodd ymchwilwyr Prifysgol Bangor sy'n rhan o'r prosiect offeryn dysgu peirianyddol i ddadansoddi'r arwyddnodau cemegol hyn, gyda'r nod o nodi'n gyflym math a swm y cemegau PFAS niweidiol sy'n bresennol.



## DYSGU A MYFYRWYR

### Astudio

Mae'r cwrs [Dylunio Arloesol Cymhwysol MSc](#) yn paratoi myfywrywr i gymryd swyddogaeth arweiniol/weithredol wrth alluogi newid ym mha bynnag faes a ddewisodd, trwy ddefnyddio theori ac arferion masnachol cyfredol ar sail profiad. Mae sgiliau meddylfryd dylunio yn hynod yn drosglwyddadwy a gellir eu defnyddio i deall a rhoi sylw i amrywiaeth o heriau sy'n ymwneud â phobl, ac mae ganddynt botensial i beri newid sylweddol. Mae gan yr academyddion sy'n ymwneud â'r rhaglen gysylltiadau helaeth â chwmnïau dylunio a gweithgynhyrchu yn lleol ac yn fyd-eang. Defnyddir y cysylltiadau hynny i sicrhau bod y modiwlau'n berthnasol i swyddogaethau modern mewn dylunio arloesi, eu bod yn cael ei defnyddio fel sail i ddatblygiad proffesiynol trwy leoliadau gwaith, ac i hyrwyddo meddylfryd arloesol sy'n canolbwyntio ar agweddau masnachol.

### River and Sea Sense yn Cydweithio ag Academyddion a Myfywryr y Cyfryngau ym Mhrifysgol Bangor i Gynhyrchu Ffilm am Ddiogelwch Dŵr

Mae sylfaenydd River and Sea Sense, Debbie Ann Turnbull, MBE, wedi bod yn gweithio gyda [myfywryr y cyfryngau ac academyddion o Brifysgol Bangor](#) i gynhyrchu ffilm ddogfen fer i'r 'River and Sea Sense Training Academy.' Nod y fenter yw ehangu effaith River and Sea Sense yn y sector diogelwch dŵr ac atal boddi. Crëwyd y ffilm i arddangos i gynulleidfaoedd allweddol, gan gynnwys athrawon nofio, achubwyr bywyd, darpar gyllidwyr, noddwyr a sefydliadau ieuencid fel arf hyrwyddo pwerus. Bydd hefyd yn ymddangos ar wefan River and Sea Sense, i godi ymwybyddiaeth am y mater hollbwysig hwn ac annog unigolion a sefydliadau i gynnwys yr hyfforddiant 'plug-and-play' yn eu rhaglenni. Mae'r cydweithrediad yn tynnu sylw at rym arloesi, addysg a hyrwyddo diogelwch dŵr.

## GWEITHREDIADAU

### Prif Weinidog Cymru, Eluned Morgan, yn Ymweld â M-SParc i Ddathlu Arloesedd a Thwf y Dyfodol

Yn Ionawr, ymwelodd Prif Weinidog Cymru, Eluned Morgan â'r [parc gwyddoniaeth](#) i ddysgu mwy am yr ecosystem bywiog o arloesi a'i ddyheadau ar gyfer y dyfodol. Ffocws yr ymweliad oedd dysgu mwy am un o'r eco-systemau arloesi mwyaf pwerus yng Nghymru a thrafod y cyfleoedd a gynigir gan y Borthladd Rydd.

Gyda'r statws porthladd rhydd a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu ail adeilad, mae M-SParc yn paratoi ar gyfer blwyddyn drawsnewidiol. Gan gydnabod y parc gwyddoniaeth fel canolbwynt arloesi, mae'r Brifysgol yn awyddus i chwarae rhan allweddol yn y mentrau arloesol sy'n gysylltiedig â'r porthladd rhydd, gan gryfhau ymhellach ei chysylltiad rhwng y byd academaidd a diwydiant. Daeth yr ymweliad i ben gyda chyfarfod yn y Sefydliad Dyfodol Niwclear (SDN). Bu'r SDN yn arddangos eu hymchwil, sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer datblygiadau blaengar mewn technoleg niwclear.

### Effaith Byddwch Fentrus

Mae'r Tîm Byddwch Fentrus yn rhan o Wasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd y Brifysgol yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr a graddedigion Bangor ddatblygu eu sgiliau menter a chefnogi'r rhai sydd am ddechrau busnes neu fenter gymdeithasol eu hunain neu ddatblygu gyrfa fel gweithiwr llawrydd. [Yn ystod y flwyddyn 24/25](#), cefnogodd y Cydlynnydd Busnesau Cychwynnol Graddedigion 50 o fyfyrwyr i ddatblygu syniadau busnes dros 244 o apwyntiadau. Mae 75 o fyfyrwyr wedi cymryd rhan yn y Llwybr Menter a Dechrau Busnes ar-lein gyda 22 wedi cwblhau, ac enillodd myfyriwr Aron Owen y wobwr Raddedig y Flwyddyn yng nghystadleuaeth flynyddol Cychwyn Busnes y Flwyddyn Cymru.



## YMCHWIL

### Archifau Bangor ac ISWE yn ennill grant gan Lywodraeth Cymru i Ddigiddeiddio Papurau Jamaica Ystad y Penrhyn

Mae [Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor](#) a Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru wedi cael grant o £14,850 i drawsnewid mynediad ar-lein i bapurau Jamaica a gedwir yn archif ystâd y Penrhyn. Gyda chyllid gan Gronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Gwrth-hiliaeth Cymru 2024/25 Llywodraeth Cymru, bydd y project yn darparu gwell mynediad yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang i'r cofnod amlycaf am ran Cymru yn hanes ac etifeddiaeth caethwasiaeth trawsatlantig.

### Prifysgol Bangor yn ennill Cyllid 'Doctoral Focal Awards' nodedig yr AHRC

Mae'r Brifysgol wedi cael ei enwi'n arweinydd grant gan yr [AHRC Doctoral Focal Awards](#), ac yn bartner ar ail un. Bwriad y grantiau yw darparu hyfforddiant doethurol sy'n datblygu capasiti ymchwil mewn meysydd strategol, yn mynd i'r afael â heriau cymdeithasol trwy ymchwil y celfyddydau a'r dyniaethau, ac yn paratoi myfyrwyr at yrfaeodd. Maent hefyd yn anelu at fynd i'r afael â thangynrychiolaeth, cau bylchau sgiliau, a chryfhau cydweithio rhwng y byd academiaidd, diwydiant a chymunedau er budd cymdeithasol ehangach.

## Nod: Lleihau anghydraddoldeb o fewn ac ymhlith gwledydd

## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

### Learning to Contribute to Society: Insights from Wales and Nigeria

Gwyddonydd cadwraeth ac addysgwr a aned yn Nigeria yw Dr Salamatu Jidda-Fada a wnaeth rhoi [darlith agored am ddim](#) yn Medi, ar ymchwilio i brofiadau personol o Gymru a Nigeria, gan archwilio agweddau ar ddysgu er mwyn cyfrannu'n effeithiol at gymdeithas. Wnaeth y ddarlith archwilio'r cysyniad o gyfrannu at gymdeithas a'i arwyddocâd wrth feithrin cymunedau cynhwysol a chynaliadwy. Wnaeth archwilio sut mae unigolion a chymunedau yng Nghymru a Nigeria yn llywio eu rolau a'u cyfrifoldebau tuag at welliant cymdeithasol, gan ystyried ffactorau diwylliannol ac economaidd-gymdeithasol.

### Meithrin gweithlu dwyieithog

Yn Dachwedd, bu [digwyddiad Prifysgol Bangor](#) adnodd arloesol a chynhadledd oedd wedi ei dargedau at gyflogwyr sy'n dymuno recriwtio siaradwyr dwyieithog (Cymraeg/ Saesneg) i'w gweithlu. Wnaeth panelwyr o Gymru a Gwlad y Basg rannu eu harbenigedd o weithio ym maes recriwtio staff mewn cymunedau ieithoedd lleiafrifol.

### The Gender Pay Gap: Glass Ceilings, Discrimination, or Personal Decisions?

A oes rhesymau cymhellol dros wahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau sy'n mynd y tu hwnt i wahaniaethu yn unig? Pa rôl mae rhwystrau strwythurol yn erbyn dewisiadau personol yn ei chwarae wrth barhau'r anghydraddoldebau hyn? Wnaeth y [sesiwn hon](#) yn Fehefin archwilio safbwyntiau cystadleuol trwy gysyniadau fel "nenfwd gwyr," "lloriau gludiog," a "phiblinell gollyngol," gan herio myfyrwyr i ddadansoddi'n feirniadol a yw cynnydd ymddangosiadol yn cuddio anghydraddoldebau strwythurol dyfnach.

## DYSGU A MYFYRWYR


### Myfyrwyr Indiaidd yn dathlu Diwali gyda'r Prif Weinidog

Fel rhan o ddatliadau Diwali eleni, gwahoddwyd Marcel Clusa o Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol y Brifysgol a phedwar myfyriwr Indiaidd o Brifysgol Bangor i ddiwyddiad Diwali arbennig yn Abertawe gydag Eluned Morgan, sef Prif Weinidog Cymru, a Raj Aggarwal, sef Conswl Anrhydeddus India yng Nghymru. Bu myfyrwyr Prifysgol Bangor yn siarad â'r Prif Weinidog, a oedd yn cydnabod pwysigrwydd y 30,000 o ddinasyddion Indiaidd sy'n gweithio ac yn astudio yng Nghymru ar hyn o bryd, mewn perthynas â dyfodol y wlad a'r berthynas rhwng Cymru ac India yn y dyfodol.

### Data Myfyrwyr 2023/24

Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Myfyrwyr Blynyddol hwn yn cyflwyno gwybodaeth monitro cydraddoldeb ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Bangor, gan ganolbwyntio ar y nodweddion gwarchoddedig canlynol a gwmpesir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: Oed; Anabledd; Ethnigrwydd neu Hil; Crefydd neu gred; Rhyw; Cyfeiriadedd rhywiol; Traws. Mae'r adroddiad yn cymharu ffigurau Prifysgol Bangor yn erbyn ystadegau cenedlaethol i ystyried amrywiaeth a chynhwysoldeb poblogaethau myfyrwyr yng nghyd-destun ehangach y DU.

Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Myfyrwyr diweddaraf yn nodi bod 9% o fyfyrwyr amser llawn eu bod yn ddu, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig ym Mangor yn 2023/24. Datgelodd 25% o fyfyrwyr ym Mangor anabledd.



## GWEITHREDIADAU

### Gwobr Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hil

Mae Prifysgol Bangor wedi cael Gwobr Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hil i gydnabod y cynnydd yr ydym wedi ei wneud o ran deall a mynd i'r afael â'r materion y mae staff a myfyrwyr du, Asiaidd ac ethnig leiafrifedig yn eu hwynebu mewn addysg uwch. Nod y Siarter Cydraddoldeb Hil yw gwella cynrychiolaeth, profiad, dilyniant a llwyddiant staff a myfyrwyr ethnig leiafrifedig mewn addysg uwch. Mae'n darparu fframwaith trwyadl i sefydliadau weithio drwyddo i nodi rhwystrau at gydraddoldeb, i adfyrio'n feirniadol amdanynt ac i weithredu yn eu cylch. Advance HE yw'r sefydliad sy'n dyfarnu'r Wobr Efydd ac yn gwneud hynny er mwyn nodi ymrwymiad y Brifysgol i weithio tuag at gyflawni cydraddoldeb hil ar draws y sefydliad. Rhan o'r gwaith hwnnw yw Cynllun Gweithredu Hil dros gyfnod o 5 mlynedd.

### Prifysgol Bangor yn ymuno â Rhaglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall

Mae Prifysgol Bangor yn falch o gyhoeddi ei haelodaeth o Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, gan ailddatgan ei hymrwymiad i greu amgylchedd diogel, cynhwysol a chroesawgar i staff a myfyrwyr LHDTC+. Drwy bartneru â Stonewall, sefydliad hawliau LHDTC+ blaenllaw'r Deyrnas Unedig, mae'r Brifysgol bellach wedi cael mynediad at hyfforddiant arbenigol, adnoddau, rhwydweithiau a chefnogaeth wedi'i theilwra i gryfhau ei hymdrechion cynhwysiant.

### Dathlu amrywiaeth ym Mangor

Roedd y Gala Un Byd blynyddol unwaith eto'n arddangos yr amrywiaeth a'r dalent anhygoel yn ein cymuned. Gynhaliwyd ar 6 Mawrth, efo cymysgedd bywiog o dros 80 berfformiadau o gadwyni o alawon Indonesaidd, triciau yo-yo, ac offerynnau Tsieineaidd traddodiadol. Wedi'i threfnu gan ein Tîm Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol ers dros 15 mlynedd, mae'r Gala yn parhau i fod yn uchafbwynt y flwyddyn.



**11** DINASOEDD A  
CHYMUNEDAU  
CYNALIADWY

## YMCHWIL

### **Ymchwilio i therapi newydd i ddynion gydag anhwylder personoliaeth gwrthgymdeithasol sy'n troseddu**

Mae [Prifysgol Bangor](#) wedi gwneud cyfraniad pwysig at ymchwil i therapi newydd i ddynion gydag anhwylder personoliaeth gwrthgymdeithasol (ASPD) sy'n troseddu. Roedd yr astudiaeth yn gweld a ellid gwella ymddygiad ymosodol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy addasiad o driniaeth ar sail ymenyddu (MBT).

### **Ymchwil yn datgelu bylchau mawr mewn gwybodaeth am y llanw, sy'n arwain at risg i fywyd ymysg ymwelwyr arfordirol**

Mae ymchwil [Brifysgol Bangor](#) mewn partneriaeth â Sefydliad Brenhinol y Badau Achub (RNLI) wedi datgelu diffyg sylweddol o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd ynghylch symudiadau'r llanw. Datgelodd yr ymchwil nad oes gan bedwar o bob deg o bobl fawr ddim dealltwriaeth o'r llanw, a dim ond hanner sy'n gwirio amseroedd y llanw cyn ymweld â thraeth. Hyd yn oed yn fwy pryderus, dim ond 24% o'r cyhoedd sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ddarllen a dehongli amserlenni llanw'n gywir.

Mae'r RNLI yn obeithiol y bydd gwell gwybodaeth am y llanw'n arwain at lai o argyfyngau ar hyd arfordir y Deyrnas Unedig.

## **Nod: Gwneud Dinasoedd yn Gynhwysol, Diogel, Gwydn a Chynaliadwy**

## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

### **Casgliadau Arthuraidd a Cheltaidd, Ysgolheictod a'r Gymuned**

Noddir gan [Brifysgol Bangor](#) a Chymdeithas Ddysgedig Cymru, ac a drefnir gan Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd y Brifysgol, wnaeth y digwydd dathlu'r berthynas rhwng Archifau a Chasgliadau Arbennig y Brifysgol a chyfraniad llyfrau ac ysgolheictod Astudiaethau Arthuraidd a Cheltaidd at feithrin enw da rhyngwladol y brifysgol yn y meysydd hyn. Bu'r digwyddiad hefyd yn arddangos gwaith Prifysgol Bangor yn y gymuned, yn enwedig o ran cynnal diddordeb yn y chwedlau yng Nghymru ac yng ngweddill y byd.

### **Tuag at ddyfodol cynaliadwy i ogledd Cymru a'i chymunedau**

Bu'r digwyddiad olaf partneriaeth 3 blynedd [Sefydliad Materion Cymreig \(IWA\)](#) a [Phrifysgol Bangor](#) dod â phanelwyr a phrif siaradwyr ynghyd i drafod yr heriau a'r cyfleoedd ehangach i'r rhanbarth. Wnaethom ystyried sut y gallwn sicrhau lles y cymunedau, a chynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol-ddiwylliannol, ac archwilio'r rôl y gall gogledd Cymru ei chwarae nid yn unig i'r Cymry, ond ar lwyfan y Deyrnas Unedig hefyd ac yn fyd-eang.

Bu'r digwyddiad yn cydblethu â themâu o'r pum digwyddiad blaenorol, a fu'n archwilio amryw o bynciau sy'n berthnasol i gymunedau'r gogledd (economeg iechyd, datblygu twristiaeth gynaliadwy, cysylltiadau Cymru ac Iwerddon, y seilwaith ynni a pherchnogaeth gymunedol). Wnaeth adfyfrio ynglŷn â rôl pwrpas a gwerth cymdeithasol yn y sector addysg uwch ac addysg bellach, a'r rôl y gall ei chwarae i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol.

## DYSGU A MYFYRWYR

### Bwrsariaeth newydd yn galluogi myfyrwyr Prifysgol Bangor i arwain y ffordd mewn ymchwil sy'n cael ei gyrru gan y gymuned

Mae'r Brifysgol Bangor a Chyngor Dinas Bangor yn falch o gyhoeddi derbynwyr cynllun bwrsariaeth newydd i fyfyrwyr a gynlluniwyd i gefnogi projectau ymchwil sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol Cyngor y Ddinas ac uchelgais cymunedol. Darparwyd cyfanswm o £3,000 mewn cyllid bwrsariaeth, gan ddenu 18 o gynigion cystadleuol o ansawdd uchel gan fyfyrwyr y brifysgol. Ar ôl proses ddethol drylwyr, wnaeth panel o gynrychiolwyr dyfarnu pedair bwrsariaeth i brojectau ymchwil dan arweiniad myfyrwyr, pob un yn cynnig mewnwelediadau unigryw ac effaith bosibl ar gymuned Bangor a'r rhanbarth ehangach.

Y pedwar project llwyddiannus yw:

- Joseph Roy – Profiadau natur amlsynhwyraidd a'u heffaith ar lesiant trefol: Mae'r project arloesol hwn yn pontio gwyddoniaeth seicolegol sylfaenol â chymwysïadau therapiwtig ymarferol, gan ddefnyddio manau gwyrdd Bangor i greu ymyriadau ar sail tystiolaeth i wella iechyd meddwl a lles cymunedol.
- Charlotte Maloney – Darganfod bywyd cudd y Fenai o Bier Garth Bangor: Mae'r fenter yn dwyn ynghyd ymchwil academiaidd, gwirfoddolwyr, a sefydliadau elusennol i gysylltu'r cyhoedd â bioamrywiaeth forol Afon Menai trwy addysg, allgymorth, ac adnoddau.
- Madison Ramsey – Datgelu straeon cudd Cadeirlan Bangor: Mae'r ymchwil yn archwilio hanes cyfoethog a haenog Cadeirlan Bangor, gyda ffocws penodol ar arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol ei llyfrgell fenthyca, sydd ymysg yr hynaf yng Nghymru.
- Luke Lambert – Aneddiadau eglwysig canoloesol cynnar yng Nghymru yn ystod cyfnod o chwyldro, 700–1100: Mae'r ymchwil hanesyddol yn ymchwilio sut aeth yr eglwys ati i addasu ac esblygu trwy gyfnod o newidwleidyddol a ddiwylliannol.

## GWEITHREDIADAU

### Prifysgol Bangor: 140 mlynedd o Gasglu Celf

Prifysgol Bangor yw ceidwad nifer o gasgliadau amgueddfa pwysig a ffurfiwyd ers sefydlu'r Brifysgol. Mae'r casgliadau yn amrywiol eu natur ac yn cynnwys celf gain.

Mae'r casgliad celf yn cynnwys tua 650 o weithiau, sy'n dyddio o'r 17eg i'r 21ain ganrif. Mae'r casgliad wedi datblygu'n bennaf trwy gymynroddion, rhoddion a phryniannau, a gafwyd oherwydd bod yr artist neu'r pwnc yn ymwneud â gogledd Cymru. Nid yw'r casgliad wedi'i gyfyngu i gelf Gymreig, ac mae hefyd yn cynnwys paentiadau gan artistiaid Prydeinig ac Ewropeaidd.

Wnaeth arddangosfa am ddim rhwng Chwefror a Ebrill dathlu pen-blwydd y Brifysgol a'i chelf drwy arddangos uchafbwyntiau o'r casgliad.

### Cwrs dwys yn gymorth i'r cynorthwywyr

Bydd 14 gynorthwywyr dosbarth yn dychwelyd i'w hysgolion cynradd ar hyd y gogledd-ddwyrain gyda sgiliau Cymraeg newydd, a hynny wedi iddynt gwblhau cwrs dysgu iaith dwys dan ofal staff Canolfan Bedwyr yn ddiweddar.

Mae aelodau'r dosbarth yn gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn siroedd Conwy, Fflint, Dinbych a Wrecsam gyda'r mwyafrif helaeth heb sgiliau Cymraeg blaenorol. Dros gyfnod o bum wythnos yn y Ganolfan Iaith yn Llanelwy, mae'r cynorthwywyr wedi treulio dyddiau llawn yn dysgu patrymau iaith a geirfa newydd ar gwrs lefel Mynediad, sydd wedi ei ddatblygu'n benodol ar eu cyfer gan diwtoriaid Canolfan Bedwyr, sef Canolfan Gwasanaethau, Technoleg ac Ymchwil Cymraeg Prifysgol Bangor. Yr un yw nod yr holl gyrsiau, sef gyrru aelodau staff yn ôl i'w hysgolion gyda'r sgiliau angenrheidiol i gyflwyno'r Gymraeg i'w disgyblion a'u cydweithwyr.




**12** DEFNYDDIO A  
CHYNHYRCHU'N  
GYFRIFOL

## YMCHWIL

**Mae newid hinsawdd yn fygythiad llawer mwy i amaethyddiaeth na haenau tomwellt plastig, yn ôl rhybudd gan ymchwilyr**

Dengys yr astudiaeth a wnaed o dan arweiniad Prifysgol Bangor fod plastigion yn helpu lleihau effeithiau llawer o broblemau amgylcheddol mewn amaethyddiaeth. Mae defnyddio daenfeydd yn dechreg amaethyddol sydd yn cynnwys gorchuddio'r pridd gyda ffilmiau arbennig er mwyn codi tymereddau, atal chwyn a gwarchod dŵr mewn cynhyrchiad cynydau. Mae'r ymchwilyr yn herio'r pryderon cynyddol sy'n ymwneud â defnyddio hneau tomwellt plastig mewn amaethyddiaeth ac mae'n galw am arferion gwell mewn ymchwil a rheolaeth. Mae ymchwilyr o Brifysgol Bangor, Prifysgol Amaethyddol Tsieina, a sefydliadau rhyngwladol eraill wedi cyhoeddi adolygiad cynhwysfawr sy'n archwilio manteision ac effeithiau amgylcheddol posibl defnyddio plastig mewn amaethyddiaeth. Maent yn rhybuddio bod eu canfyddiadau'n tynnu sylw at baradocs hollbwysig y mae'n rhaid i lunwyr polisi, ffermwyr ac eiriolwyr amgylcheddol fynd i'r afael ag ef.



## Nod: Sicrhau Patrymau Defnyddio a Chynhyrchu Cynaliadwy

### YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

**Biobotiau - cefnogi amaeth-goedwigaeth a lleihau gwastraff plastig untro yn nwyrain Africa**

Mae Canolfan Biogyfansoddion Prifysgol Bangor yn gweithio gyda phartneriaid yn Uganda a Chenia i ddatblygu Biobotiau, dewis arall bioddiraddadwy, yn lle'r bagiau plastig a ddefnyddir ar hyn o bryd i blannu coed. Mae'r tîm ymchwil, mewn cydweithrediad â METGE a'r National Agricultural Research Organisation (NARO) yn Uganda yn cydweithio i ddatblygu dewis arall bioddiraddadwy i'r bagiau hyn sy'n deillio o danwydd ffosil a elwir yn biobotiau ar hyn o bryd. Mae'r biobotiau hyn, a gynhyrchir ym Mhrifysgol Bangor, yn cynnwys gweddillion cynydau amaethyddol o ranbarth Mount Elgon, ac maent wedi cael eu treialu mewn gwahanol feithrinfeydd METGE ym Mbale, Uganda.

### Cefnogi uwchgynhadledd cynaliadwyedd Yr Wyddfa

Yr Wyddfa yw copa prysuraf Gymru. Yn anffodus, fel llawer o gyrchfannau poblogaidd ym Mharc Cenedlaethol Eryri, mae llygredd plastig yn bla ar y mynydd. Mewn ymateb i hyn, bu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn gweithio gydag academyddion Prifysgol Bangor i ganfod atebion i'r heriau, ochr yn ochr â phenodi swyddog 'di-blastig' a gafodd y dasg o weithio gyda chlymblaid o'r rhai sy'n fodlon mynd ati i glirio plastigau na ellir eu haildefnyddio o'r mynydd. Aeth staff a myfyrwyr Bangor ati gyda chyfres o broiectau gyda'r nod o ddeall a newid ymddygiad ymwelwyr sy'n dod i'r parc cenedlaethol ac sy'n taflu sbwriel. Mewn project cychwynnol a gafodd sylw ar ITV Coast and Country, datgelodd nad mater syml o beidio â malio yw taflu sbwriel.

# DYSGU A MYFYRWYR


## Wythnos Ymwybyddiaeth Gwastraff

Roedd Wythnos Ymwybyddiaeth Gwastraff 2024 yn llwyddiant mawr, uchafbwyntiau oedd:

- Yn y Caffi Trwsio, daethpwyd â 27 o eitemau i mewn. Llwyddwyd i drwsio 15 ohonynt, a chafodd 12 ddiagnosis ar gyfer atgyweiriadau yn y dyfodol.
- Roedd Glanhau'r Traeth yn llwyddiant mawr, gyda gwirfoddolwyr yn casglu 20 bag o sbwriel.
- Rhoddasant 63 o gynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio, gan helpu i leihau gwastraff hyd yn oed ymhellach.

### Siop Cyfnewid Dillad

Yn Hydref, ddaru'r Undeb Myfyrwyr cynnal Siop Cyfnewid Dillad, lle oedd myfyrwyr yn helpu eu hunain i ddillad ail-law - heb unrhyw gost. Cymerodd dros 100 o fyfyrwyr ran yn y Cyfnewid Dillad, gan gyfnewid dillad diangen am ddarnau newydd iddynt!



# GWEITHREDIADAU

## Y brifysgol yn mabwysiadu Warplt, sef llwyfan ar gyfer rhannu ac aildddefnyddio adnoddau swyddfa a labordy

Mae'r brifysgol wedi cofrestru i ddefnyddio Warplt, sef llwyfan ar-lein ar gyfer ailddosbarthu adnoddau. Cafodd y llwyfan ei gynllunio i helpu staff i ganfod, rhoi i fwrdd ac aildddefnyddio dodrefn swyddfa, offer labordy ac eitemau eraill, a hynny i gyd am ddim.

Ers dechrau defnyddio'r llwyfan hwn y llynedd, mae'r brifysgol wedi llwyddo i osgoi gwaredu bron i 7 tunnell o asedau ac wedi arbed dros £48,000 mewn costau caffael. Wrth ddefnyddio'r llwyfan hwn, mae staff nid yn unig yn helpu'r brifysgol i leihau gwastraff ac arbed arian ond hefyd yn creu cyfleoedd i gydweithwyr gael mynediad at yr adnoddau maen nhw eu hangen.




Warpit, rhwydwaith aildddefnyddio

### Data Gwastraff

Yn 2024/25 llwyddodd Prifysgol Bangor i ddargyfeirio 100% o'i gwastraff. O'r gwastraff na chafodd ei yrru i safle tirlenwi cafodd 56.3% ei ailgylchu a 43.7% ei adfer. Cynhyrchwyd 673.26 tunnell o wastraff i gyd, gostyngiad o 8.75% ers y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal eleni llwyddom i osgoi gwastraff drwy aildddefnyddio 12.95 tunnell o eitemau, fel dodrefn.

2024/25 Cyfanswm Gwastraff i bob Llif Gwastraff



■ Ailgylchu ■ Compostio ■ Treulid Anerobig ■ Adfer Ynni

Data Gwastraff 2024/25 Prifysgol Bangor



## 13 GWEITHREDU AR Y NEWID YN YR HINSAWDD

### YMCHWIL

#### Coedwigoedd aeddfed hanfodol ar y rheng flaen yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd

Datgela astudiaeth newydd fod gan goedwigoedd aeddfed rôl allweddol i'w chwarae yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd – sef echdynnu carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>) o'r atmosffer a'i gloi mewn pren newydd. Darganfu ymchwilwyr o Brifysgolion Birmingham, Bangor, Abertawe a Caerwysg, fod coed hŷn yn ymateb i lefelau uwch o CO<sub>2</sub> yn yr atmosffer trwy gynyddu faint o biomas prenaidd sy'n cael ei gynhyrchu – gan fynd yn groes i ddamcaniaethau presennol a ddywed nad oes gan goetiroedd aeddfed y gallu i ymateb i lefelau uwch o CO<sub>2</sub>.

#### Gwyddonwyr yn rhagweld effeithiau'r hinsawdd ar briddoedd Ewrop

Mae ymchwil newydd wedi datgelu sut mae achosion o dywydd eithafol yn effeithio ar ficrobau pridd bach, gan roi dirnadaeth newydd o'r risgiau a achosir gan newid hinsawdd. Wrth i achosion o dywydd eithafol, ddod yn fwy cyffredin oherwydd gwresogi bydeang, mae deall sut mae microbau pridd yn ymateb yn allweddol. Mae i'r microbau hyn ran allweddol mewn prosesau naturiol fel cylchu carbon, sy'n helpu i benderfynu faint o garbon sy'n cael ei storio yn y pridd a faint a ryddheir i'r atmosffer fel carbon deuocsid - un o'r prif bethau sy'n effeithio ar wresogi bydeang.

## Nod: Gweithredu ar Frys i Frwydro yn Erbyn Newid yn yr Hinsawdd a'i Effeithiau

### YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

#### Newid Eryri - Changing Eryri

Oedd 'Newid Eryri' yn arddangosfa ryngweithiol yn Awst wnaeth taflu goleuni ar y newidiadau amrywiol y mae Eryri eisoes wedi bod trwyddynt, o'r prosesau cudd sy'n gynhenid i siapio ein dealltwriaeth o'i thirwedd, i'r trawsnewidiadau ffisegol mwy amlwg a wnaed yn hanesyddol gan Stad y Penrhyn. Trwy gelf, sain, mapiau a deunyddiau eraill, ddaru ymwelwyr darganfod sut mae Eryri a'n hymdeimlad o'r dirwedd wedi newid dros amser. Y prif gwestiwn wnaeth arwain yr arddangosfa chwilfrydig hon oedd: Gall ddysgu bod tirweddau'n esblygu, yn ffisegol ond hefyd o ran sut y cânt eu hamgyffred, leihau dymuniadau i gadw'r dirwedd bresennol yn sefydlog ac yn ddigyfnewid?

#### Thriving in the Anthropocene

Mewn darlith gyhoeddus rad ac am ddim ym Mhrifysgol Bangor ym mis Ionawr, wnaeth Yr Athro Mike Berners-Lee, mewn cydweithrediad â Changen Menai o Gymdeithas y Cenhedloedd Unedig (UNA), cloddio trwy haenau'r argyfwng lluosog i drafod yr elfennau hollbwysig i'r rhai sy'n ceisio sicrhau dyfodol cynaliadwy. Bu darlith Mike canolbwyntio ar y newidiadau systemig sydd eu hangen arnom i oroesi a ffynnu dros y degawdau nesaf, gan archwilio'r gwerthoedd allweddol y mae'n rhaid eu hyrwyddo i'w cyflawni. Mae Mike yn dadlau bod yr atebion technegol eisoes o fewn cyrraedd, felly beth sy'n atal cynnydd? Y rhwystrau gwirioneddol yw uniondeb a gwerthoedd ein sectorau gwleidyddiaeth, cyfryngau a busnes, a'r rôl y gall pob un ohonom ei chwarae fel unigolion i ysgogi newid.

## DYSGU A MYFYRWYR

### Prosiect PhD newydd: Adfer y Goedwig Law Geltaidd ar gyfer Sero Net – Trawsnewid Defnydd Tir Cyfiawn?

Yn ddiweddar, cynigiodd yr Ysgol Gwyddorau Amgylchedd a Naturiol [ysgoloriaeth llawn yn Llwybr Cynllunio Amgylcheddol yr Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru \(Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol ESRC\)](#) yn dechrau ym mis Hydref 2025. Mae coedwig law dymherus yn gynefin prin yn fyd-eang, a gynrychiolir yng Nghymru gan weddillion ynysig o'r "goedwig law Geltaidd". Mae'n gyfoethog o rywogaethau ac yn storio carbon sylweddol. Mae prosiect arloesol a ariennir gan garbon dan arweiniad yr Ymddiriedolaethau Natur, mewn partneriaeth ag Aviva, yn anelu i adfer y cynefin hwn er budd bioamrywiaeth ac atafaelu carbon, tra'n gweithio'n agos gyda chymunedau lleol.

### Prosiect PhD newydd: Deall effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol o mudo oherwydd hinsawdd i'r ffin goedwig ym Madagascar

Yn ddiweddar, cynigiodd yr Ysgol Gwyddorau Amgylchedd a Naturiol [ysgoloriaeth llawn yn Llwybr Cynllunio Amgylcheddol yr Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru](#) yn dechrau ym mis Hydref 2025. Bydd mudo a ysgogir gan yr amgylchedd yn peri her gynyddol drwy gydol yr unfed ganrif ar hugain a bydd yn cyfrannu at newid amgylcheddol pellach, wrth i fudwyr symud i chwilio am adnoddau, yn aml yn cael eu denu i ardaloedd sydd ar ffiniau coedwigoedd sydd â gwerth uchel o ran bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau. Fodd bynnag, nid oes llawer o astudiaethau wedi'u gwneud ar fudo o un ardal wledig i un arall o gymharu â mudo i ddinasoedd, ac nid oes llawer o ddealltwriaeth o sut mae mudwyr yn effeithio ar gynefinoedd naturiol. Mae Madagascar wedi dioddef sychder difrifol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, gan arwain at fudo mewnol sylweddol, gan gyrraedd bron pob rhan o'r ynys.

## GWEITHREDIADAU

### Prifysgol Bangor yn dewis Ecosia'n beiriant chwilio diodyn er mwyn cefnogi arferion cynaliadwy

Er mwyn cefnogi ymdrechion ailgoedwigo byd-eang a hyrwyddo arferion cynaliadwy mae [Prifysgol Bangor nawr yn defnyddio Ecosia](#) fel ei pheiriant chwilio diodyn. Daeth y newid i rym yn Tachwedd yn dilyn awgrymiad ydoedd gan fyfyrwr yn lansiad ymgyrch [25erbyn25](#) y Brifysgol. Cynhaliwyd ymchwil cychwynnol ar y pwnc, o dan arweiniad Dr Edward T Jones yn Ysgol Busnes Bangor, ac ymgynghorwyd â staff a myfyrwyr, a oedd yn hynod gadarnhaol. Ecosia, yw peiriant chwilio dielw mwyaf y byd.

Mae Ecosia yn neilltuo 100% o'i elw i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd, yn bennaf trwy broiectau ailgoedwigo ledled y byd. I nodi'r achlysur plannwyd coeden Hamamelis Intermedia Firecracker yn y Cwad Allanol. O ddefnyddio Ecosia, bydd pob chwiliad ar ddyfeisiau'r Brifysgol yn cyfrannu at genhadaeth Ecosia o adfer mannau lle mae problemau o ran bioamrywiaeth ac ymladd yn erbyn datgoedwigo.

### Rheoli Carbon

Yn 2024/25 gostyngodd allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 y Brifysgol i 5,771.03 tonnell CO<sub>2</sub>e, o'i gymharu â 9,491.9 tonnell CO<sub>2</sub>e yn 2018/19, yn seiliedig ar [gyfrifiadau trydan yn ôl y lleoliad](#).

Mae hwn yn ostyngiad o 39.2% mewn termau llwyr, o'i gymharu â 2018/19. Roedd cymhariaeth o weithgareddau Cwmpas 1 a 2 rhwng 2023/24 a 2024/25 yn dangos gostyngiad bach yn nefnydd trydan a nwy naturiol, a nwyon-F oereiddio aerdymheru, tra bo cynnydd mewn olew gwresogi, defnydd LPG a gweithgarwch amaethyddol. Gostyngodd y defnydd o danwydd i'r fflyd a'r peiriannau hefyd, a chyfrannodd hyn oll at ostyngiadau pellach mewn allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2. Eleni hefyd gwelwyd cynnydd yn allbwn solar y Brifysgol.



## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

### Predicting the Ocean: 80 years of progress, Yr Athro Tom Rippeth

Bu'r [cyflwyniad hwn yn fis Rhagfyr](#), trafod effaith ymchwil eigioneg ffisegol Prifysgol Bangor ar wella ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r cefnfor yn gweithio gan Tom Rippeth, Cadeirydd sefydledig Eigioneg Ffisegol. Mae'n eigionegydd arsylwadol gyda diddordeb ymchwil brwd mewn tyrfedd a chymysgu yn yr amgylchedd morol. Mae ei waith wedi cynnwys datblygu technegau newydd i fesur tyrfedd dyfrol, a defnyddio mesuriadau tyrfedd i nodi, datrys a meintioli prosesau ffisegol allweddol sy'n ysgogi cymysgu yn y cefnfor.

### Prifysgol Bangor yn hyrwyddo strategaeth llythrennedd cefnforol gyntaf y DU

Yn Ionawr wnaeth Partneriaeth Arfordir a Moroedd Cymru lansio fframwaith Llythrennedd Cefnfor i Gymru gyda'r nod o gynyddu perthynas pobl â'n harfordiroedd a'n moroedd. Y cyntaf o'i bath yn y Deyrnas Unedig, mae Y Môr a Ni yn cyfuno gwybodaeth a phrofiad 22 o sefydliadau, gan gynnwys [academyddion Bangor](#), i gydweithio fel Clymblaid Llythrennedd Cefnfor Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddylanwad pobl ar y môr, ynghyd â dylanwad y môr arnom.

## Nod: Diogelu a Defnyddio'r Cefnforoedd, y Moroedd ac Adnoddau'r Môr yn Gynaliadwy ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

### YMCHWIL

#### Prifysgol Bangor yn ennill cyllid i wneud ymchwil rhyngddisgyblaethol ar ecosystemau'r môr

Mae'r project, dan [arweiniad academydd o Fangor](#), yn integreiddio adroddiadau hanesyddol gyda gwyddor y môr fodern fel sail i reolaeth gynaliadwy o ecosystemau'r môr. Mae'r project yn canolbwyntio ar benwaig yr Iwerydd, rhywogaeth allweddol yn ecosystem gogledd-ddwyrain yr Iwerydd y mae'r boblogaeth wedi gostwng ers canol yr 20fed ganrif. Nod y project yw defnyddio data hanesyddol i nodi ardaloedd pwysig i silio penwaig a deall tueddiadau hirdymor silio sy'n gysylltiedig â newidiadau yn yr hinsawdd.

#### Adar môr yn gwneud defnydd dyfeisgar o wyntoedd i gynllunio teithiau i dwrio am fwyd dros gannoedd o gilometrau

Adar môr yw'r grŵp o adar sydd dan fwyaf o fygythiad yn y byd. Mae astudiaeth newydd a arweiniwyd gan [ymchwilwyr ym Mhrifysgol Bangor](#) yn datgelu'r penderfyniadau soffistigedig y mae'n rhaid i adar drycin Manaw eu gwneud i ddod o hyd i bysgod ar y môr. Wrth fesur yr ymdrech y mae'n ei gymryd i'r adar drycin hedfan mewn gwahanol amodau gwynt, darganfu fod yr adar yn penderfynu ble i hedfan i ddod o hyd i bysgod yn seiliedig ar y gwynt, gan gydbwysu'n ofalus yr egni a geir o fwyd â'r egni a ddefnyddir i chwilio amdano.



## DYSGU A MYFYRWYR

### Modelau anatomegol i fyfyrwyr Ysgol y Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol

Mae grant gan Gronfa Bangor wedi galluogi Ysgol y Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol i brynu casgliad o fodelau anatomegol. Mae'r modelau hynod gywir hyn yn cynnwys seren fôr, cimwch yr afon a detholiad o wyth ymennydd fertebratau bellach yn gwella'r dysgu ym mhob un o'r saith rhaglen sŵoleg.

Myfyrwyr trydedd flwyddyn ar y modiwl Ffisiolog Pysgod oedd y cyntaf i elwa o'r adnodd newydd hwn. Defnyddiodd y myfyrwyr y modelau i ddadansoddi morffoleg ymennydd brithyll seithliw, morgi a llysywen. Daeth yn amlwg bod y modelau yn gydymaith delfrydol yn y pum sesiwn ymarferol yn cymharu anatomeg niwral a mynegiant hormonau fertebratau.

Defnyddir y modelau infertebrau hefyd yn y modiwlau Sŵoleg Infertebrau a Sŵoleg Integredig yn y gwanwyn. Mae'r modelau gwydn a dyranadwy hyn yn delfrydol i astudio anatomeg gymharol tra'n cefnogi ymrwymiad yr ysgol i hanfodion ymchwil gydag anifeiliaid - lleihau, disodli a mireinio.

### Astudio

Mae Ysgol Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor yn defnyddio llongau ar y glannau a llong dyfroedd mawr, a labordai, systemau a meddalwedd o'r radd flaenaf i ddysgu bioleg mor, ffiseg, a gwyddorau eigion.



*Yr Acwariwm Cymunedol*

## GWEITHREDIADAU

### Eigionegydd o Brifysgol Bangor yn dod yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru

Mae Tom Rippeth, sy'n Athro mewn Eigioneg Ffisegol yn Ysgol Gwyddorau Eigion y brifysgol, ymhlith y ffigurau blaenllaw i ymuno ag Academi Genedlaethol Cymru.

Cenhadaeth ei Chymrodoriaeth yw hyrwyddo a datblygu cymuned ymchwil ac arloesi Cymru, a chefnogi'r defnydd o ymchwil rhagorol ac amrywiol i ddatrys yr heriau a wynebir yng Nghymru a ledled y byd. Mae' gwaith yr Athro Rippeth yn canolbwyntio ar dyrfedd a chymysgu yn y cefnfor gan gynnwys effaith y llanw a gwynt ar iâ môr yr Arctig yn toddi.

### Cronfa Bangor yn cefnogi Project Acwariwm Ysgol Gwyddorau'r Eigion

Trwy roddion hael gan gyn-fyfyrwyr, mae Cronfa Bangor wedi ariannu project Acwariwm o fewn Ysgol Gwyddorau'r Eigion, sy'n canolbwyntio ar gadwraeth ac ecoleg. Nod y project yw amlygu ymchwil arloesol yr ysgol mewn dyframaeth pysgod riff cwrel, a chadwraeth ac ecoleg riffiau, gyda phwyslais arbennig ar y Project Acwariwm Cynaliadwy diweddar. (SNAP), sy'n dirnod rhaglen ymchwil i wella llwyddiant bridio acwariwm.

Mae'r acwariwm yn gartref i bysgod ac infertebrau a gynhyrchir gan staff a myfyrwyr uned dyframaeth yr ysgol. Mae'r tîm o naw myfyriwr a phedwar aelod o staff yn goruchwylio gwaith cynnal a chadw'r acwariwm o ddydd i ddydd, a'r gwaith ychwanegu pysgod ac infertebrau yn raddol. Mae'r project hwn wedi rhoi cyfle i fyfyrwyr hyfforddi a datblygu sgiliau mewn hwsmonaeth anifeiliaid, technegau dyframaeth a rheoli acwariwm. Yn ogystal â hynny, mae myfyrwyr wedi cymryd rhan flaenllaw mewn datblygu ffeithluniau rhywogaethau gan roi cipolwg i'r gwyliwr ar astudiaethau natur y rhywogaethau sy'n cael eu harddangos.



## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

### Can tourism ever truly be sustainable?

Wnaeth Dr Linda Osti, Uwch Ddarlithydd mewn Rheolaeth Twristiaeth, cynnig [Sesiwn Blasu ar-lein am ddim](#) yn Mai. Archwiliodd sut mae twristiaeth yn effeithio ar gymdeithasau, economïau lleol, a'r amgylchedd, a dysgu am strategaethau i fynd i'r afael â'r heriau hynny. Wnaeth cyflwyno cysyniadau allweddol twristiaeth gynaliadwy, a chynnig cyflwyniad craff i gymhlethdodau rheoli twristiaeth yn gynaliadwy i ysbrydoli arweinwyr y dyfodol i feddwl yn feirniadol wrth lunio dyfodol twristiaeth.

### Gŵyl Draig Beats yn denu cannoedd i ddiwrnod llawn llesiant, cerddoriaeth a gwyddoniaeth ym myd natur

Daeth dros 700 o bobl ynghyd i Ardd Fotaneg Treborth yn Fehefin i fwynhau [Gŵyl Draig Beats](#), ddiwyddiad bywiog i'r teulu, wnaeth godi £4,000 i gefnogi Ymddiriedolaeth Sophie Williams. Roedd yna sgysiau gwyddoniaeth, stondinau cymunedol ac arddangosiadau rhyngweithiol, efo Cyfoeth Naturiol Cymru, Gweithredu dros yr Hinsawdd Gogledd Cymru, Tecstillau, Llyn Parc Mawr, Hedgerow Foraging, Nature Keen, Sioe Flodau Llangoed, Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch, ac Extinction Rebellion.

**Nod: Amddiffyn, Adfer a Hyrwyddo Defnydd Cynaliadwy o Ecosystemau Daearol, Rheoli Coedwigoedd yn Gynaliadwy, Brwydro yn erbyn Diffeithdiro, Atal a Gwrthdroi Diraddio Tir, ac Atal Colli Bioamrywiaeth**

## YMCHWIL

**Ymchwil - plastigrwydd ffenoteipaidd presennol yn gadael i blanhigion addasu'n gyflym i amgylcheddau tocsig**

Mae organebau gwyllt yn wynebu heriau sylweddol oherwydd cyflymder y newid amgylcheddol a achosir gan bobl. Proses yw plastigrwydd ffenoteipaidd lle gall planhigyn neu anifail unigol fynegi nodwedd mewn gwahanol ffyrdd er mwyn gweddu'n well i'r amodau. Pan ddaw i gysylltiad â sylweddau tocsig neu yng nghamau cynnar cytrefu safle newydd, gallai plastigrwydd chwarae rhan wrth gyflymu'r broses o ymaddasu. Mae [ymchwil newydd gan Fangor](#), yn dangos y gall plastigrwydd sydd wedi esblygu i ddelio ag un sefyllfa o straen, helpu planhigion i addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd o straen ac i orchfygu cynefinoedd newydd.

### Difodiant ac Esblygiad: Astudiaeth yn adolygu gwreiddiau bioamrywiaeth

Mae [tîm rhyngwladol o wyddonwyr](#) wedi gwneud darganfyddiad arloesol a allai ail-lunio ein dealltwriaeth o sut esblygodd bioamrywiaeth fyd-eang. Trwy ail-greu esblygiad rhywogaethau dros y 45 miliwn o flynyddoedd diwethaf, canfu ymchwilwyr fod tarddiad daearyddol llawer o blanhigion, pryfed a mamaliaid wedi'u cysylltu'n agosach nag a feddylwyd o'r blaen. Defnyddiodd y tîm De-ddwyrain Asia fel labordy naturiol i olrhain tarddiad daearyddol ystod eang o rywogaethau. Mae eu canfyddiadau yn herio damcaniaethau hirsefydlog bod grwpiau o fflora a ffawna wedi esblygu ar wahân ar wahanol fathau o dir cyn arallgyfeirio ar draws y rhanbarth.

## DYSGU A MYFYRWYR

### Sgyrsiau Byr Cadwraeth

Oedd myfyrwyr angerddol am yr amgylchedd, astudio cadwraeth, neu gyda diddordeb mewn gwirfoddoli yn gallu ymuno a [Thrafodaethau Byr Cadwraeth Flynyddol](#) yn Tachwedd. Oedd hyn yn gyfle i glywed gan a rhwydweithio gydag arbenigwyr cadwraeth leol gan Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, a RSPB Cymru. Wnaeth y digwyddiad cynnwys:

- Cyfarfod ag arbenigwyr a proffesiynolwyr mewn cadwraeth leol.
- Dysgu am wirfoddoli a chyfleoedd gyrfu gyda'r 3 sefydliad.
- Sesiwn 'Holi ac Ateb' a rhwydweithio i gysylltu gyda myfyrwyr a proffesiynolwyr tebyg.



### Mentrau cyflogadwyedd dan arweiniad myfyrwyr mewn gwyddorau amgylcheddol

Mae myfyrwyr yn yr Ysgol Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol wedi sefydlu [Gweithgor Cyflogadwyedd dan Arweiniad Myfyrwyr yr Ysgol](#). Wnaeth y grŵp hwn trefnu Diwrnod Cyflogadwyedd llwyddiannus yn Mai, gan gynnwys siaradwyr gwadd llawn mewnwelediad, stondinau gyrfaoedd a gwirfoddoli lleol, lluniau proffiliau LinkedIn, a chyngor gyrfu arbenigol. Yn llawn cyfleoedd i fyfyrwyr baratoi ar gyfer eu gyrfaoedd a chyfarfod â chysylltiadau proffesiynol defnyddiol, cafodd y digwyddiad foddhad o 95% gan fyfyrwyr a boddhad o 100% gan gyflogwyr a gymerodd ran.

## GWEITHREDIADAU

### Gardd Fotaneg Treborth yn ennill grant gan y cynllun Grant Buddsoddi mewn Coetir

Mae [Gardd Fotaneg Treborth](#) wedi ennill grant gan y cynllun Grant Buddsoddi mewn Coetir. Rhoddir y grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Mae grant gwerth £250,000 wedi ei ddyfarnu i Dreborth i adfer ac adfywio'r coetir naturiol a diwylliannol sydd yn yr ardd a gwella mynediad a darparu profiadau dysgu ystyrlon trwy raglen amrywiol o gysiau, gweithdai a hyfforddiant.

Mae gan Dreborth hanes hir o weithio gyda'r gymuned leol i godi dyheadau a gwella ansawdd bywyd. Mae'n ganolfan a arweinir gan wirfoddolwyr sy'n trefnu gweithgareddau i ddathlu ehangder ac amrywiaeth ein treftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog, ac mae coetiroedd yn rhan greiddiol o'n hymdrechion ym maes cadwraeth.

### Parc y Coleg

Bu Parc y Coleg - man gwyrdd arwyddocaol a hanesyddol sy'n cysylltu'r Brifysgol a chanol dinas Bangor, [ailagor yn llawn i'r cyhoedd yn Fehefin](#). Wedi'i drawsnewid yn ardal heddychlon a hygyrch, mae Parc y Coleg bellach yn fan croesawgar i bawb ei fwynhau.

Mae'r brif fynedfa i'r Parc wedi agor man gwyrdd croesawgar i gysylltu Dinas Bangor â Bangor Uchaf. Mae'r project wedi'i ariannu drwy raglen 'Trawsnewid Trefi' Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Chyngor Gwynedd.

Wnaeth y gwaith cynnwys creu mynedfa newydd i'r parc oddi ar Ffordd Deiniol, gosod llwybr newydd i gysylltu'r ddinas â phrif adeilad y Brifysgol, a Pontio, yn ogystal â gosod goleuadau i alluogi pobl i ddefnyddio'r parc wedi iddi nosi.



## YMCHWIL

### **Angen goruchwyliaeth fwy llym gan fod camymddwyn ariannol yn ysgogi banciau i gymryd risgiau**

Mae banciau sy'n wynebu cosbau rheoleiddiol am gamymddwyn ariannol yn tueddu i ddefnyddio arferion busnes mwy peryglus, yn ôl ymchwil newydd. Mae'r awduron yn rhybuddio y gall camymddwyn ailadroddus neu systemig gyflymu'r broses o gymryd risgiau mewn ffyrdd sy'n gwanhau sefydliadau unigol a'r system ariannol ehangach. Mae ymchwilwyr Brifysgol East Anglia, [Prifysgol Bangor](#) a'r US Department of the Treasury wedi defnyddio data o bron i 1,000 o fanciau a restrwyd yn gyhoeddus yn yr Unol Daleithiau. Mae canfyddiadau yn dangos bod banciau a gyfeiriwyd at yr awdurdodau am droseddau, yn amrywio o gamliwio i fethiannau mewn systemau gwrth-wyngalchu arian, yn llawer mwy tebygol o ymgymryd â strategaethau gyda llawer o risg a benthyca hapfasnachol.

### **Mae sgoriau credyd yn wiriad allweddol ar orhyder ymysg prif weithredwyr mewn perthynas â chaffaeliadau corfforaethol**

Yn ôl yr ymchwilwyr dan arweiniad [Prifysgol Bangor](#), dyma'r papur cyntaf i awgrymu y gall asiantaethau sgorio credyd, trwy eu rhagolygon a gweithredoedd sgorio, atal gorhyder ymysg prif weithredwyr i bob pwrpas, a thrwy hynny, fonitro ymddygiad rheolwyr yn allanol.

**Nod: Hyrwyddo cymdeithasau heddychlon a chynhwysol ar gyfer datblygu cynaliadwy, darparu mynediad at gyfiawnder i bawb ac adeiladu sefydliadau effeithiol, atebol a chynhwysol ar bob lefel**

## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

### **Prifysgol Bangor yn cynnal tribiwnlys cyflogaeth ffug i helpu cyflogwyr i ymdopi â heriau cyfreithiol**

Wnaeth Pontio cael ei drawsnewid yn ystafell llys ar 26 Mawrth, wrth i [Adran y Gyfraith Prifysgol Bangor](#) gynnal Tribiwnlys Cyflogaeth Ffug byw – digwyddiad oedd yn agored i fyfyrwyr a chyflogwyr lleol.

I gyflogwyr, gall mynd i dribiwnlys cyflogaeth fod yn frawychus, a gall goblygiadau penderfyniadau anghywir fod yn gostus, ac yn aml yn fater o les y cyhoedd. Oedd Aarons & Partners Solicitors yn ceisio dangos i gyflogwyr sut i fanteisio ar y gyfraith pe bai achos yn codi yn eu herbyn.

Nod y Tribiwnlys Cyflogaeth Ffug yw ymglyfarwyddo cyflogwyr lleol â phrofiad o dribiwnlys. Wnaeth yr achos yn cael ei farnu gan farnwr cyfraith cyflogaeth brofiadol, gyda myfyrwyr yn perfformio fel tystion ac yn actio senarios. Oedd cyfranogwyr yn cael cyfle i fod yn dyst i groesholi, gweld barn yn cael ei rhoi a chlywed y rhesymeg yn cael ei egluro.

Mae'r achos a fydd yn cael ei glywed yn y llys yn ymwneud â gwahaniaethu yn erbyn merch sy'n profi menopos. Wnaeth Aarons & Partners Solicitors a myfyrwyr y gyfraith Prifysgol Bangor arwain cyflogwyr drwy dribiwnlys cyflogaeth ffug sy'n ymdrin â honiadau o ddiswyddo annheg deongliadol, gwahaniaethu ar sail anabled, methu â gwneud addasiadau rhesymol, aflonyddu ac erledigaeth.

## DYSGU A MYFYRWYR

**Myfyrwyr gyfraith y Brifysgol yn cynnig cyngor cyfreithiol am ddim i'r cyhoedd.**

Mae [myfyrwyr y gyfraith ym Mhrifysgol Bangor](#) yn cynnig cyngor cyfreithiol cyfrinachol a phroffesiynol am ddim i'r cyhoedd trwy Glinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol Bangor, sydd newydd ei sefydlu. Mae'r gwasanaeth, sydd ar gael yn ystod y tymor, yn cynnig cymorth cyfreithiol hygyrch i'r gymuned ac yn rhoi profiad ymarferol defnyddiol dros ben i'r myfyrwyr.

Dan oruchwyliaeth cyfreithwyr cymwys ac uwch ddarlithwyr profiadol, mae'r clinig yn cynnig gwasanaeth dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cynlluniwyd y gwasanaeth i ddarparu cyngor o ansawdd uchel, gyda'r holl argymhellion yn cael eu hadolygu'n drylwyr gan oruchwylwyr arbenigol cyn eu cyflwyno i'r cleientiaid. Mae'r clinig yn gallu rhoi cyngor ar amrywiaeth eang o faterion sifil, gan gynnwys materion teuluol, cyflogaeth, tai a phroblemau gyda nwyddau a gwasanaethau.

**Clinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol Bangor wedi ennill y Wobr Pro Bono yng Ngwobrau News Legal Wales**

Mae [Clinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol Bangor](#) wedi ennill y Wobr Pro Bono yng Ngwobrau News Legal Wales 2025, y gwobrau cyntaf o'u math. Mae hyn yn cydnabod y gwaith gwerthfawr a ddarperir gan glinig sy'n rhoi cyngor cyfreithiol am ddim i'r rhai mewn angen.

Mae Clinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol Bangor yn darparu cyngor cyfreithiol am ddim i aelodau'r cyhoedd, gan gynnig profiad cyfreithiol ymarferol i fyfyrwyr dan oruchwyliaeth staff cymwysedig. Mae ei gynnwys ymhlith yr ymgeiswyr terfynol yn adlewyrchu ei ffocws cryf ar y gymuned a'i ymroddiad i wasanaeth cyhoeddus. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn amlygu ymrwymiad y Clinig i fynediad at gyfiawnder a'i effaith gynyddol yn nhirlun cyfreithiol Cymru.

## GWEITHREDIADAU


**Undeb Myfyrwyr**

Mae'r [Undeb Myfyrwyr](#) yn cefnogi dros 10,000 o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor drwy eu cynrychioli, cynnal digwyddiadau, cymdeithasau, chwaraeon, gwirfoddoli, a chynnig cyngor academiaidd. Fel Undeb Myfyrwyr annibynol ac elusen gofrestredig, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol er mwyn sicrhau fod eich llais yn glywedadwy. O arwain ymgyrchoedd i gynrychioli eich diddordebau academiaidd, i ddarparu cefnogaeth a chreu cyfleoedd er mwyn eich galluogi i gymryd rhan, mae Undeb Bangor wrth galon bywyd myfyrwyr. Maent hefyd yn falch iawn o'n dwyieithrwydd a'n cynhwysiant. Mae UMCB (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor) yn rhan-annatod o Undeb Bangor ac yn gweithio i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i chymuned ar y campws.



**Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol**

Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi ei [adroddiad blynyddol sefydliadol](#) a'i [datganiad ariannol](#) bob blwyddyn.



*Adroddiad  
Blynyddol a  
Datganiadau  
Ariannol*



**17** GWEITHIO MEWN  
PARTNERIAETH I  
GYFLAWNI'R NODAU

## YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

**Arbenigwyr yn galw am weithredu brys ar gam-drin geiriol yn ystod plentyndod yn Nhŷ'r Cyffredin**

Daeth arbenigwyr blaenllaw ynghyd yn Nhŷ'r Cyffredin i alw am weithredu cenedlaethol brys i fynd i'r afael â cham-drin geiriol yn ystod plentyndod. Mae cam-drin geiriol yn ystod plentyndod yn cael ei gydnabod bellach fel y math mwyaf cyffredin o gam-drin plant. Wedi'i gynnal gan Sharon Hodgson AS a'i gynnull gan yr elusen Words Matter, amlygodd y drafodaeth dan arweiniad arbenigwyr yr angen hanfodol i gynnwys atal cam-drin geiriol yng nghanhadaeth y Llywodraeth er mwyn magu'r genhedlaeth iachaf o blant mewn hanes a chwalu rhwystrau i gyfleoedd. Roedd y siaradwyr yn y digwyddiad cyntaf am gam-drin geiriol yn ystod plentyndod yn Nhŷ'r Cyffredin yn cynnwys yr [Karen Hughes](#), [Athro Iechyd Cyhoeddus](#), [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#), [Prifysgol Bangor](#) a [chynghorydd arbenigol i Sefydliad Iechyd y Byd](#).



**Nod: Cryfhau'r dulliau gweithredu ac adfywio'r bartneriaeth fyd-eang ar gyfer datblygu cynaliadwy**

## YMCHWIL

**Gwyddonydd hinsawdd yn ennill gwobr fawreddog**

Mae [gwyddonydd hinsawdd Brifysgol Bangor](#) wedi ennill gwobr fawreddog. Mae Dr Iestyn Woolway, Cymrawd Ymchwil Annibynnol NERC yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion wedi'i anrhydeddu â Gwobr Dechrau Gyrfa Yentsch-Schindler 2025 gan Y Gymdeithas Gwyddorau Llynoleg ac Eigioneg.

Mae'r wobr am ei waith dylanwadol yn disgrifio effeithiau cynhesu'r hinsawdd ar lynnoedd ledled y byd, gan gynnwys newidiadau mewn amseru tymhorol, haenau dyfrol, gorchuddiant iâ a thywydd poeth, yn ogystal â'i gyfraniadau addysgol ac allgymorth eithriadol i gymdeithas a'r gymuned wyddonol fyd-eang, gan gynnwys ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa. Mae gwaith Dr Woolway yn pontio eigioneg a limnoleg, gan ddefnyddio dulliau arloesol i archwilio effeithiau newid hinsawdd ar ddyfroedd naturiol. Cydnabyddir ei waith ymchwil yn rhyngwladol, gyda dros 112 o bapurau cyhoeddedig a 14 wedi'u dyfynnu yn adroddiad diweddaraf yr IPCC.

**Astudiaeth fawr yn datgelu canlyniadau siomedig o ran effeithiolrwydd adnodd gofal dementia ar-lein WHO**

Mae astudiaeth fawr yn y Deyrnas Unedig i effeithiolrwydd adnodd gofal ar-lein Sefydliad Iechyd y Byd i ofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia wedi datgelu canlyniadau siomedig. Asesodd ymchwilwyr [dan arweiniad Prifysgol Bangor](#) y defnydd o iSupport mewn treial hapsamplu rheolyddedig yn y Deyrnas Unedig am y tro cyntaf. Er i'r ymchwil ganfod nad yw'n lleihau tralod ac iselder i ofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia ar hyn o bryd, mae'n dal i gael ei ystyried yn adnodd defnyddiol.

## DYSGU A MYFYRWYR

### Gwirfoddolwyr yn Rhoi Bywyd Newydd i Ben Y Bonc ym Mangor Uchaf

Mae Pen Y Bonc, man gwyrdd lleol ym Mangor Uchaf, wedi dioddef o sbwriel ac esgeulustod dros y blynyddoedd. Oherwydd hyn, fe aeth [myfyrwyr ati i wirfoddoli gydag Undeb Bangor](#), sef Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor, i helpu'r gymuned i adfer yr ardal. Mae myfyrwyr wedi bod yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau'r gymuned leol i dacluso ymylon y llwybrau, clirio prysgwydd ac eithin, casglu sbwriel, a phlannu 15 o goed ffrwythau; afalau, gellyg ac eirin. Y weledigaeth yw creu man croesawgar a hygyrch i'r gymuned leol, gan hefyd annog bywyd gwyllt lleol. Bwrriedir i'r dyluniad fod yn gynaliadwy ac yn hawdd i'w gynnal, gan adlewyrchu'r adnoddau gymharol fach sydd ar gael.



*Gwirfoddolwyr yn Rhoi Bywyd Newydd i Ben Y Bonc ym Mangor Uchaf*

### Wythnos Gwirfoddoli

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi cysylltu â nifer o elusennau a phrojectau gwirfoddoli allanol ym mis Chwefror ar gyfer [wythnos gwirfoddoli](#). Uchafbwyntiau'r wythnos oedd:

- Dydd Llun 3 Chwefror: Creu Prosiect Gwirfoddoli Newydd gyda'r RSPB.
- Dydd Iau 6 Chwefror: Plannu Coed gyda Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru.
- Dydd Sadwrn 8 Chwefror: Glanhau Traeth + Helfa Casys Wyau Siarc.

## GWEITHREDIADAU

### Prifysgol Bangor ymysg yr 11% uchaf yn fyd-eang o ran cynaliadwyedd

Cafodd [Prifysgol Bangor](#) ei rhestru ymysg yr 11% uchaf yn fyd-eang am gynaliadwyedd yn Nhabl Cynghair Cynaliadwyedd Byd-eang QS 2025. Mae'r Brifysgol wedi cadw ei safle ymysg y 200 uchaf, ac wedi ei gosod yn safle 196 o 1,751 o sefydliadau. Gosodwyd Bangor yn safle 37 o blith 99 o sefydliadau yn y DU. Mae cynnwys cynaliadwyedd yn un o ystyriaethau tablau cynghair QS yn cyd-fynd gyda phrif thema cynllun strategol y Brifysgol – Strategaeth 2030: byd cynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol – ac mae'n adlewyrchu'r newid a fu ym mlaenoriaethau myfyrwyr ac ym mlaenoriaethau cymdeithas yn ehangach dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r tabl cynghair yn canolbwyntio ar dri maes allweddol, sef Effaith Amgylcheddol, Effaith Gymdeithasol, a Llywodraethiant.

### Prifysgol Bangor wedi'i henwi'n un o brifysgolion gorau'r byd ar gyfer cynaliadwyedd ac amrywiaeth

Gwelwyd perfformiadau cryf ar draws nifer o ddangosyddion, gyda'r [brifysgol](#) yn neidio 41 lle i 239 o ran y dangosydd Myfyrwyr Rhyngwladol. Gwelwyd perfformiad cryfach yn y dangosydd Amrywiaeth Myfyrwyr Rhyngwladol, gyda'r Brifysgol yn cyrraedd safle 210. Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar gymhareb y myfyrwyr rhyngwladol i gyfanswm y myfyrwyr, yn ogystal ag amrywiaeth cenedligrwydd y myfyrwyr rhyngwladol hynny. O ran y dangosydd Cynaliadwyedd, sy'n gwerthuso effaith gymdeithasol ac amgylcheddol prifysgolion yn unol â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, mae Prifysgol Bangor yn cyrraedd safle 195.

